Dyddiad Cyhoeddi:
25/01/2021

# Gwerthusiad Interim o'r Peilot Meincnodi Gatsby

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN XXXXXXX

Teitl: Gwerthusiad Interim o’r Peilot Meincnodi Gatsby

Dyfan Powel, Anna Burgess, Sam Grunhut, ac Endaf Griffiths / Wavehill

Safbwyntiau’r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad ac nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:
Enw: Emma Hughes
Adran: Cangen Gyrfaoedd, Cyflogadwyedd a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn:
E-bost: emma.hughes2@gov.wales

**Tabl cynnwys**

Tabl cynnwys ........ 1
Rhestr tablau ........ 2
Rhestr Ffigyrau ........ 2
Rhestr termau ........ 3
Crynodeb Gweithredol ........ 4
2. Cyflwyniad/Cefndir ........ 13
3. Methodoleg ........ 17
4. Canfyddiadau ........ 21
5. Casgliadau ........ 55
6. Argymhellion ........ 61
Atodiad A ........ **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad B: Trafodaeth am ddulliau o ddangos tystiolaeth o effaith ........ 68
Atodiad C: Archwiliadau am y meincnodau ........ 72

**Rhestr tablau**


Tabl 3.1: Manylion ymatebion yr arolwg fesul rôl ....................19

Tabl 3.2: Manylion ymatebion yr arolwg yn ôl y gyfranogaeth yn y Peilot Meincnodi Gatsby neu ei weithgareddau cysylltiedig ....................19

Tabl 4.1: Cynnydd o ran y meincnodau (yr holl ysgolion) ....................29

Tabl 4.2: Effeithiolrwydd y broses fonitro ....................35

Tabl 4.3: Yr effaith ar ymwybyddiaeth disgyblion o lwybrau gyrfaoedd ....................38

Tabl 4.4: Yr effaith ar gyflawniad disgyblion ....................40

Tabl 4.5: Yr effaith ar gyrchnodau disgyblion ....................41

Tabl 4.6: Pa effaith mae'r meincnodau unigol a gweithgareddau perthnasol wedi eu cael yn barod ar y ddarpariaeth gyrfaoedd o fewn yr ysgol? ....................41


**Rhestr Ffigyrau**


Ffigwr 4.1: I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r sail resymegol neu'r rhesymeg y tu cefn i raglen Meincnodi Gatsby? ....................22

Ffigwr 4.2: Pa effeithiau mae gweithrediad y meincnodau Gatsby wedi eu cael ar yr agweddau dilynol? ....................31

Ffigwr 4.3: Effeithiolrwydd y broses fonitro ....................35

Ffigwr 4.4: Pa effaith mae'r meincnodau unigol a gweithgareddau perthnasol wedi eu cael yn barod ar y ddarpariaeth gyrfaoedd o fewn yr ysgol? ....................41

Ffigwr 4.5: Mae Meincnodau Gatsby yn cefnogi darpariaeth dysgu gyrfaoedd effeithiol ....................42

Ffigwr 4.6: Effaith yn y dyfodol (1) ....................46

Ffigwr 4.7: Effaith yn y dyfodol (2) ....................46

Ffigwr 4.8: Effaith yn y dyfodol (3) ....................47

Ffigwr 4.9: Effaith yn y dyfodol (4) ....................47

Ffigwr 4.10: Mae Meincnodau Gatsby wedi ychwanegu gwerth i'r fframwaith CWW ....................52

Ffigwr 4.11: Bydd y meincnodau'n cyflenwi addysg gyrfaoedd yn yr ysgol yn dilyn cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru ....................54

## Rhestr termau

| Acronym / Blaenlythrennau / Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CWRE | Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith |
| CWW | Gyrfaoedd a Byd Gwaith |
| CBSRCT | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| TUA | Tîm Uwch-Arweinwyr |

## Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso cynnydd ac effaith cynllun Peilot Meincnodi Gatsby sydd ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRCT) ac sydd ar gam interim. Mae'r gwerthusiad yn ystyried gweithrediad, effaith a phriodoldeb y dull mewn system addysgiadol ddiwygiedig yng Nghymru. Wrth wneud hynny, mae'n archwilio ac yn mynd ati i ateb cwestiynau ymchwil craidd.

1) A yw ysgolion a rhanddeiliaid ehangach yn gweld gwerth yn y broses Meincnodi Gatsby?

2) A yw ysgolion yn gweithredu'r Meincnodau'n effeithiol?

3) Pa effaith mae'r Meincnodau'n ei chael mewn ysgolion ac ar ddysgwyr ac ysgolion?

4) A yw Meincnodau Gatsby yn 'addas' neu a oes ganddynt y potensial i ychwanegu gwerth ac ategu'r ddarpariaeth gyrfaoedd yng nghyd-destun Cymru?

1.2 O ganlyniad i'r newidiadau sydd wedi eu cynllunio yn y Cwricwlwm i Gymru 2022, cydnabuwyd y byddai angen diweddaru'r fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith (CWW) cyfredol a ddefnyddir i strwythuro ac arwain addysg gyrfaoedd yn ysgolion Cymru er mwyn adlewyrchu'r ystod oedran ehangach a'r agwedd gyfannol tuag at y cwricwlwm newydd. Yn ystod haf 2018, felly, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr ariannu a'r rhaglen Beilot ar gyfer Meincnodau Arweiniad Gyrfaol Da Gatsby gydag ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf. Gwirfoddolodd pedair ar ddeg o ysgolion uwchradd i fod yn rhan o gam cyntaf y Peilot ac, o fis Medi 2019, cymerodd bob ysgol uwchradd ran.

1.3 Mae Meincnodau Gatsby yn deillio o'r adroddiad 'Good Career Guidance', sy'n nodi cyfres o wyth meincnod y gall ysgolion eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer gwella eu darpariaeth gyrfaoedd. [1] Y rhain yw:

1. Rhaglen gyrfaoedd gadarn
2. Dysgu o wybodaeth y farchnad lafur a gyrfaoedd
3. Ymdrin ag anghenion bob disgybl
4. Cysylltu dysgu'r cwricwlwm gyda gyrfaoedd

[1] https://www.gatsby.org.uk/uploads/education/reports/pdf/gatsby-sir-john-holman-good-career-guidance-2014.pdf

5. Cyfarfod â chyflogwyr a gweithwyr cyflogedig
6. Profiadau o fannau gweithio
7. Ymwneud ag addysg bellach ac uwch
8. Arweiniad personol

1.4 Mae disgwyl i'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun Peilot anelu at gyflawni targedau penodol sy'n berthnasol i bob un o'r wyth meincnod, dan oruchwyliaeth rheolwr prosiect a'u monitro drwy arolygon cynnydd blynyddol.

1.5 I ymdrin â'r cwestiynau ymchwil a nodwyd eisoes, defnyddiwyd pedwar prif ffynhonnell ddata:

- cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 7 aelod o staff rheoli a chyflenwi allweddol
- cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 14 o Arweinwyr Gyrfaoedd a phersonél allweddol mewn ysgolion/colegau.
- monitro data a dogfennaeth projectau eraill, ac
- arolwg ar-lein a ddosberthir i staff yr ysgolion sy'n cymryd rhan drwy Arweinwyr Gyrfaoedd a'r rheolwr rhaglen. Derbyniodd yr arolwg 90 o ymatebion.

**Rhesymeg, addasrwydd ac ymgysylltiad**

1.6 Lleisiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil eu cefnogaeth a'u dymuniad i alinio gydag amcanion a rhesymeg rhaglen Meincnodi Gatsby. Ymhellach, y farn gyffredinol oedd bod y timau uwch-arweinwyr (TUA) yn ymgysylltu'n dda â'r Peilot a'r meincnodau. Roedd yr ymgysylltiad hwn, yn ôl y cyfweliadau, yn cynnwys cyfraniadau gan athrawon a'r Tîm Uwch-Arweinwyr, ymgysylltiad a chyd-ddatblygiad gweithgareddau, a darparu meincnodau ochr yn ochr â chymhelliant ehangach i gael eu cynnwys yn y broses a'i deall.

1.7 Fodd bynnag, roedd yr Arweinwyr Gyrfaoedd yn llai hyderus ynglŷn â sicrhau ymrwymiad gan y gweithlu addysgu ehangach a gan rieni, ac ystyrir y ddwy garfan yma'n allweddol i weithrediad llwyddiannus y meincnodau drwy'r ysgol gyfan. Y farn gyffredinol oedd mai ychydig iawn o amser oedd wedi bod hyd yn hyn i ddatblygu dull integredig a bod hynny'n ffactor allweddol yn y ffaith na sicrhawyd ymrwymiad ehangach.

1.8 Ochr yn ochr â lefelau gweddol uchel o ymgysylltiad â'r Peilot a'r meincnodau, dywedodd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd hefyd bod rôl yr Arweinydd Gyrfaoedd wedi ei hintegreiddio'n dda i leoliadau addysg, a nodwyd gwerthfawrogiad cyffredinol hefyd o'r rôl a'r atebolrwydd yr oedd wedi eu rhoi i addysg gyrfaoedd.

**Gweithrediad a darpariaeth**

1.9 Y farn gyffredinol, fel y disgwylid, oedd mai dim ond yn rhannol yr oedd Peilot Meincnodi Gatsby wedi ei weithredu hyd yn hyn a bod y cynnydd yn amrywio rhwng ysgolion. Roedd cryfderau a heriau pob lleoliad ysgol unigol wedi dylanwadu ar y cynnydd yn unol â'r meincnodau unigol. Yn gyffredinol, roedd y rheiny a gyfwelwyd yn disgrifio gweithrediad a sefydliad meincnodau fel 'proses', a fyddai'n cymryd amser ynghyd â datblygiad a mireinio pellach (os nad parhaus).

1.10 Fodd bynnag, mae'r data sy'n ymwneud â'r cynnydd cyffredinol a wnaed tuag at gyflawni'r targedau meincnodi'n awgrymu bod rhai meincnodau'n anoddach eu cyflawni nag eraill. Er enghraifft, ni wnaed unrhyw gynnydd tuag at gyflawni Meincnodau 2, 4 a 6 mewn hanner neu fwy o'r ysgolion, ac nid oedd unrhyw esboniad cyffredin am hynny.

1.11 Yr unig gonsensws a gafwyd ynglŷn â heriau cyffredin oedd wrth gyflawni'r amrywiol feincnodau sy'n ymwneud â Meincnod 8: cyfweliadau gyrfaol di-duedd, un i un, gan gynghorwr gyrfaoedd cymwysedig. Awgrymodd nifer o'r Arweinwyr Gyrfaoedd, yn arbennig mewn ysgolion mwy, bod sicrhau cyfweliad un i un gyda'r dysgwyr i gyd (neu 90% ohonynt) yn arbennig o heriol. Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i gynghorwyr gyrfaol ddarparu cyfweliad un i un i bob person ifanc ac, felly, nid oes ganddynt yr amser na'r gallu i gyflawni hynny. Roedd rhai ohonynt hefyd yn cwestiynu'r angen am gael cynghorydd gyrfaoedd cymwysedig i wneud y cyfweliadau gyrfaoedd pob tro, pan allai staff addysgu wneud mwy o gyfweliadau ac, ym marn rhai Arweinwyr Gyrfaoedd, gyfweliadau mwy sylweddol.

1.12 Daeth hi'n amlwg bod yr archwiliad yn fwy na dim ond offeryn monitro, a'i fod yn cael ei ddefnyddio hefyd fel "map" i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth ac i arwain datblygiad yr addysg gyrfaoedd, gan hefyd roi hyder i staff yr ysgol drwy ddangos iddynt sut i adnabod 'y da y dylent anelu amdano'. Nid yw'n dangos nac yn mesur effeithiau na chanlyniadau i bobl ifanc.

1.13 Cynigiwyd hyfforddiant i bob Arweinydd Gyrfaoedd i gyflawni Diploma Lefel 6 mewn Datblygu Arweiniad Gyrfaol, wedi'i ddarparu gan Gyrfa Cymru. Roedd y nifer fechan o bobl oedd wedi ei gwblhau'n barnu ei fod yn werthfawr, a dywedodd oddeutu hanner yr Arweinwyr Gyrfaoedd eu bod wedi gadael y cwrs cyn ei gwblhau neu nad oeddent wedi cofrestru yn y lle cyntaf. Y prif rwystrau mae'n ymddangos oedd faint o waith oedd yn ofynnol a'r argraff bod y cymhwyster yn arbennig o heriol. Ymhellach, am nad yw rhoi arweiniad ar addysg gyrfaoedd yn cael ei ystyried yn

llwybr gyrfaol i athrawon a staff ysgol fel arfer, nid oedd llawer o bobl yn ystyried bod cyflawni cymhwyster yn ddatblygiad gyrfaol gwerthfawr.

1.14 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y gronfa sbarduno o £2,000 gan Rhondda Cynon Taf yn adnodd allweddol i ryddhau unigolion i wneud gwaith cynllunio a darparu effeithiol. Ond, roedd yn cael ei ddefnyddio hefyd i gefnogi'r darparu, gan dalu costau digwyddiadau, tripiau a threfniadau allanol.

**Prosesau monitro**

1.15 Cytunodd bron bob un o'r Arweinwyr Gyrfaoedd bod y prosesau monitro sydd ar waith yn eu galluogi nhw i dracio cynnydd yn effeithiol ac yn eu cefnogi i sefydlu a datblygu'r Meincnodau Gatsby. Roedd y mwyafrif ohonynt yn awgrymu mai'r rheswm am hynny oedd bod y prosesau'n glir a chyson, ac am eu bod yn deall eu nod a sut y gellid eu defnyddio o fewn eu lleoliad. Yn ogystal â hynny, roedd y rhai a gyfwelwyd yn tynnu sylw'n rheolaidd at y gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn gan reolwr prosiect Peilot Gatsby, yn ogystal â'r arweiniad a ddarparwyd ar gyfer monitro a chefnogi.

**Effaith**

1.16 Roedd y mwyafrif o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn awgrymu bod rhaglen Peilot Meincnodi Gatsby wedi cael, neu (yn fwy cyffredin) yn debygol o gael effaith gadarnhaol yn eu hysgol neu goleg yn y dyfodol. Roedden nhw'n awgrymu mai'r rheswm pennaf am hyn oedd bod y meincnodau wedi darparu sylfaen o wybodaeth, wedi ffurfioli'r gofynion am addysg gyrfaoedd ac wedi taflu mwy o oleuni ar lwybrau gyrfaol. Roedd y meincnodau'n debygol o weithredu fel y cam cyntaf yn y broses o newid ymddygiad ac annog ymgysylltiad mwy ystyrlon gan ddysgwyr gyda llwybrau gyrfaol posibl ac, o ganlyniad, gyda dysgu. Byddai hyn, yn ei dro a thros gyfnod hirach o amser, yn arwain at well ymgysylltiad a chyflawniad ac, yn y pen draw, at wahanol gyrchnodau gyrfaol.

1.17 Er ei bod yn rhesymegol gadarn, roedd hi'n arbennig o heriol ar y cam interim hwn i ddangos tystiolaeth o'r gadwyn hon, neu yn wir o unrhyw agweddau penodol o'r effaith a welwyd neu a ddisgwylid. Yn wir, mae'n debyg y bydd dangos tystiolaeth o effaith ar lefel y dysgwr yn her allweddol i Arweinwyr Gyrfaoedd ac i'r prosiect.

1.18 Mewn perthynas â'r dysgwyr, awgrymodd llawer o'r bobl a gyfwelwyd bod y gweithgareddau wedi arwain yn barod at gynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r llwybrau gyrfaol sydd ar gael. Er ei bod hi'n anodd dangos tystiolaeth o hynny,

roedd Arweinwyr Gyrfaoedd a staff addysgu'n credu bod dysgwyr yn derbyn mwy o wybodaeth erbyn hyn nag oeddent cynt, bod ganddynt fwy o ffocws yn eu ffordd o feddwl ac yn eu dyheadau, a'u bod hefyd yn dangos mwy o alw am arweiniad gyrfaol o ganlyniad i hynny. Mewn rhai achosion, gwelwyd bod y dysgwyr yn gwneud cysylltiadau eglur rhwng eu gobeithion gyrfaol a'u llwybrau addysgol neu gymwysterau eu hunain ac yn ceisio mwy o arweiniad gyrfaol, gan awgrymu yn eu tro eu bod yn debygol o wneud penderfyniadau gwell.

1.19 Roedd y mwyafrif o'r bobl a gyfwelwyd yn awgrymu ei bod hi'n rhy gynnar i ganfod yr effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr. Yn ogystal, roedd hi'n debygol o fod yn arbennig o heriol i ganfod cysylltiadau achosol rhwng y meincnodau a chyflawniad y dysgwyr unigol. Felly, ni ddisgwylir i'r meincnodau a'u gweithgareddau perthnasol wella cyflawniad yn uniongyrchol, ond yn hytrach disgwylir iddynt wella ymgysylltiad a fydd, yn ei dro, yn arwain at welliannau mewn cyflawniad.

1.20 Awgrymodd rhai Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd bod gweithgareddau, yn arbennig mewn perthynas â Meincnodau 5 a 6, yn cynnig cyfleoedd i oresgyn heriau a achosir gan stereoteipio'r rhywiau mewn perthynas â llwybrau gyrfaol.

1.21 Er bod yr ymgysylltiad gyda sefydliadau a busnesau allanol wedi digwydd cyn y Peilot, dywedodd y mwyafrif o'r bobl a gyfwelwyd bod eu cyfranogaeth wedi datblygu a dwysáu (yn ogystal â chael eu gwneud yn rhan o'r ddarpariaeth brif ffrwd) drwy'r ymgysylltiad allanol hwn. Ymhellach, tynnodd oddeutu hanner y rhai a gyfwelwyd sylw at werth profiadau ac ymgysylltu allanol wrth ddatblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o lwybrau gyrfaol.

1.22 Yn olaf, ac yn gysylltiedig i ryw raddau â'r pwyntiau blaenorol, mae rhai pobl yn credu bod y meincnodau wedi rhoi syniad mwy eglur iddynt o'r 'da i anelu amdano'. Mae hyn yn awgrymu eu bod nhw'n gallu cynyddu hyder staff yr ysgol yn eu hymdrechion eu hunain i ddarparu addysg gyrfaoedd effeithiol.

**Heriau**

1.23 Un her allweddol a chyffredin oedd yn wynebu Arweinwyr Gyrfaoedd oedd eu gallu i ddangos a rhoi tystiolaeth o effaith. Credai'r Arweinwyr Gyrfaoedd y byddai'n anodd sefydlu a dangos tystiolaeth o gysylltiadau achosol uniongyrchol rhwng yr ymyriadau a'r newid mewn agweddau, cyrchnodau neu gyflawniad, yn enwedig mewn perthynas â dysgwyr unigol.

1.24 Roedd oddeutu hanner y rhai a gyfwelwyd hefyd yn awgrymu mai un her allweddol fyddai sicrhau cysondeb mewn perthynas â chyflawni meincnodau ac mewn perthynas â phrofiad y dysgwyr o fewn ac ar draws ysgolion. Teimlwyd ei bod hi'n bosibl ymdrin â'r Meincnodau mewn ffordd weddol docynistaidd, neu drwy geisio rhoi 'tic yn y blychau' gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, hyd yn oed wrth 'dicio blychau' Gatsby, sicrheir bod ysgolion yn darparu addysg gyrfaoedd amlochrog i fwyafrif sylweddol o'r dysgwyr.

**Darpariaeth ehangach sy'n addas i nifer fwy**

1.25 Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod Peilot Meincnodi Gatsby yn ffitio'n dda ac yn cyflenwi'r fframwaith CWW cystal â darpariaeth Gyrfa Cymru. Ystyriwyd bod strwythuro clir, cymorth i gynllunio a chanfod bylchau, yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o sut i adnabod 'y da i anelu amdano', yn ganlyniadau allweddol i'r dull Meincnodi.

1.26 Roedd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd wedi cael y cwestiynau hynny am y cwricwlwm yn fwy heriol ac roeddent eisiau pwysleisio mai dim ond arloesi neu gychwyn darparu'r cwricwlwm newydd yr oedd ysgolion (ar y gorau). Ond, roedd y mwyafrif yn cytuno y bydd y meincnodau'n ategu'r cwricwlwm newydd, yn enwedig os cânt eu hintegreiddio'n effeithiol o fewn ysgolion. Roedd y Meincnodau'n ei gwneud hi'n ofynnol, er enghraifft, i ymgysylltu â byd gwaith a chael profiad ohono, a gellid integreiddio hyn yn yr addysgu a'r dysgu a gallai ychwanegu gwerth iddynt. Ymhellach, ystyriwyd bod y Meincnodau'n cyflenwi pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

**Casgliadau**

1.27 Wrth ddychwelyd at y cwestiynau ymchwil allweddol a nodwyd ar gychwyn y gwerthusiad hwn, gallem ddod i'r casgliad, yn gyntaf, bod ysgolion a'u staff sy'n cymryd rhan yn y Peilot yn cydnabod gwerth y dull Meincnodi, hyd yn oed ar y cam interim. Yn ogystal, mae'r raddfa o gyfranogaeth ac ymgysylltu cyffredinol mewn perthynas â'r Peilot Meincnodi o fewn yr ysgolion yn awgrymu bod staff yn ystyried y dull yn werthfawr. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon mewn perthynas ag ymrwymo mwy o aelodau staff i mewn, a'r ffaith fod cyflawni ymgysylltiad o'r fath yn broses sy'n dal i fynd rhagddi. O ystyried y rôl y mae athrawon yn ei chwarae yn y broses o ddarparu rhai o'r meincnodau, ac mewn ymwreiddio addysg gyrfaoedd o fewn y cwricwlwm, efallai y bydd angen cymorth ar Arweinwyr Gyrfaoedd i sicrhau ymrwymiad cymaint ehangach.

1.28 Roedd boddhad cyffredinol gyda'r prosesau monitro. Yn ogystal, nodwyd bod y data a'r archwiliad yn cael eu defnyddio'n gyffredin i fapio darpariaeth, i hysbysu'r cynllunio ac i gynhyrchu hyder yn y camau ychwanegol oedd yn ofynnol.

1.29 Fel y disgwylwyd, dywedodd yr ysgolion mai dim ond yn rhannol yr oedd y Meincnodau wedi eu gweithredu ar y cam interim hwn. Felly, wrth ystyried yr holl effeithiau a heriau a wynebir, dylid eu hystyried o fewn y cyd-destun hwn, a chofio bod Arweinwyr Gyrfaoedd yn dal i fod wrthi'n datblygu camau a chynlluniau gweithredu effeithiol. Mae'n debygol iawn bod y pandemig COVID-19 wedi torri ar draws hyn oll.

1.30 Yn gyffredinol, ystyriwyd y gronfa sbarduno yn adnodd allweddol a fyddai'n rhyddhau unigolion i neilltuo amser i gynllunio a gweithredu'n effeithiol. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, defnyddiwyd y gronfa i gefnogi'r darparu ac i drefnu digwyddiadau, tripiau a gweithgareddau ymgysylltu allanol. Fel cronfa sbarduno, sydd ar gael yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig ac nid i bob ysgol sy'n mynd i mewn i'r Peilot yn ystod yr ail flwyddyn, nid yw'r gwariant hwn yn gynaliadwy. Yn ogystal, mae'r ffaith fod y broses yn ddrud yn effeithio ar faint y gellir ystyried gweithgareddau ac effeithiau blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth yn rhai cyffredinol i bawb ac, ar ben hynny mae COVID-19 wedi torri ar draws y ddarpariaeth gan olygu nad oes modd canfod yn realistig beth yw effeithiau cyffredinol y cynllun yn ystod yr ail flwyddyn.

1.31 Nododd ymatebwyr hefyd, yn arbennig wrth ddarparu gweithgareddau i garfanau mawr o ddysgwyr, er mwyn bodloni targedau allbwn sy'n gysylltiedig â'r archwiliad, bod rhywfaint o awgrymu'n digwydd bod safon y gweithgareddau, eu perthnasedd i bob unigolyn, ac i ba raddau y cawsent eu teilwra, oll yn llai pwysig na sicrhau'r targed.

1.32 Yn olaf, dywedodd nifer o'r ymatebwyr mor werthfawr oedd cefnogaeth ac arweiniad rheolwr rhaglen y Peilot Gatsby. Er bod hyn yn adlewyrchu'n ffafriol ar rôl y rheolwr rhaglen yn y Peilot, mae ymhlygiadau amlwg pan fydd y cynllun Peilot yn cael ei gyflwyno'n gyffredinol neu ei ehangu, sef bod y cymorth a roddir gan rôl y rheolwr rhaglen yn allweddol i sicrhau'r lefelau o weithrediad y mae'r ysgolion wedi eu cyflawni hyd yn hyn. Mae'n debygol y byddai angen lefelau tebyg o gymorth os byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno neu ei ehangu.

1.33 Wrth ystyried effaith, nodwyd bod y staff yn datblygu dealltwriaeth o gadwyn o effeithiau am eu bod yn gweld bod y gweithgareddau'n codi ymwybyddiaeth dysgwyr o lwybrau gyrfaol. Roeddent yn credu y byddai hyn ei dro yn arwain at ymgysylltiad mwy effeithiol ac, yn y pen draw, at gyrhaeddiad ymysg dysgwyr a gwahanol gyrchnodau gyrfaol. O ganlyniad, roedd y staff yn gweld gwerth yn y dull Meincnodi.

1.34 Lleisiwyd pryderon, fodd bynnag, ynglŷn â'r gallu i ddangos tystiolaeth gadarn a dangos, ar lefel yr unigolyn, bod y meincnodau'n sicrhau bod y dysgwyr yn manteisio i'r eithaf ar eu potensial, yn ogystal ag adeiladu uchelgais, annog dysgu am oes a datblygu'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid.

1.35 Yn olaf, roedd Arweinwyr Gyrfaoedd a'r ystod o ymatebwyr y gwerthusiad o'r farn bod y meincnodau'n cefnogi ac yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth gyrfaoedd yng Nghymru. Hyd yn oed os na ellid dangos tystiolaeth o'r gadwyn effeithiau ymddangosiadol ar ddysgwyr, roedd y dull yn cefnogi darpariaeth yr addysg gyrfaoedd o fewn sefydliadau. Nododd yr ymatebwyr bod y Meincnodau'n cefnogi darpariaeth y fframwaith CWW drwy gynnig strwythur i weithgareddau a chynllunio, galluogi i'r ddarpariaeth gael ei mapio, creu atebolrwydd clir a rhoi hyder i staff allu adnabod 'y da i anelu amdano'.

1.36 Yn y cyfamser, wrth alinio â dibenion craidd tebyg, mae'r meincnodau'n nodi sut y gallai addysgu ynghyd â'r Cwricwlwm i Gymru gefnogi datblygiad dysgwyr uchelgeisiol. Ond, cydnabuwyd bod angen integreiddio a sicrhau ymrwymiad drwy'r ysgolion i gyd os oedd y meincnodau i gael eu hintegreiddio yn narpariaeth y cwricwlwm newydd.

**Argymhellion**

Argymhelliad 1: Dylai rheolwyr y Peilot Meincnodi Gatsby ymdrechu i gefnogi'r Arweinwyr Gyrfaoedd wrth iddynt geisio sicrhau ymrwymiad ehangach gan athrawon a rhieni. Credir y gall penaethiaid adran/cyfadran hwyluso a galluogi hyn gan athrawon. Yn ogystal, dylid gwneud ymdrechion i rannu arferion da a rhannu gwybodaeth am 'beth sy'n gweithio' o ran sicrhau diddordeb y rhieni.

Argymhelliad 2: Dylai rheolwyr Peilot Meincnodi Gatsby ystyried hwyluso'r broses o rannu arferion da wrth roi tystiolaeth o effaith, a dylent roi cefnogaeth i Arweinwyr Gyrfaoedd er mwyn sicrhau y cesglir data cadarn a chyson i ddangos tystiolaeth o'r effaith, lle bo modd. Mae trafodaeth fer am ddulliau posibl o ddangos tystiolaeth wedi ei chynnwys yn Atodiad B.

Argymhelliad 3: I gefnogi Argymhelliad 2 a’r ymdrechion i ganfod tystiolaeth o effaith gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r meincnodau, dylai’r rheolwyr annog pobl i gasglu data sy’n ymwneud â’r effaith ar ddysgwyr.

Argymhelliad 4: Heblaw bod y “gronfa sbarduno” yn dod ar gael bob blwyddyn, dylai’r rheolwyr annog pobl i beidio ei gwario ar y weithred o ddarparu fel nad ydynt yn amharu ar yr hyn y dylid ei ddisgwyl o flwyddyn ‘nodweddiadol’ o ddarpariaeth ac effaith sy’n gysylltiedig â’r meincnodau.

Argymhelliad 5: Dylai gwerthusiad terfynol y cynllun Peilot ystyried y strwythurau cefnogi sy’n ofynnol er mwyn cyflwyno neu ehangu’r cynllun Peilot yn effeithiol.

Argymhelliad 6: Mae’r ymchwil hwn wedi canolbwyntio, drwy gyfrwng y dulliau a ddefnyddiwyd, ar farn yr Arweinwyr Gyrfaoedd a staff ehangach yr ysgol. Ni ddylid anwybyddu’r ffaith fod barnau dysgwyr a phobl ifanc wedi eu hepgor. Argymhellir y dylid canfasio profiadau a barnau’r dysgwyr hynny yn yr ysgolion Peilot hefyd.

Argymhelliad 7: Dim ond data cyfyngedig iawn oedd ar gael ar gyfer y gwerthusiad hwn mewn perthynas ag Ysgolion Arbennig. Yr awgrym o’r data hwnnw oedd y gallai Ysgolion Arbennig gael trafferth cyflawni rhai targedau penodol neu na fyddai’r targedau yn hollol briodol o bosib ar gyfer y lleoliad a’r cyd-destun. Argymhellir gwneud ymchwil pellach mewn perthynas ag Ysgolion Arbennig a phriodoldeb y meincnodau mewn lleoliadau o’r fath.

Argymhelliad 8: Fel y nodir yn Atodiad B, mae’r pandemig COVID-19 a’r rheidrwydd cysylltiedig i gau ysgolion i’r mwyafrif o ddysgwyr, wedi amharu ar ail flwyddyn y Peilot. Yn y cyfamser, roedd ffocws y flwyddyn gyntaf yn naturiol ar sefydlu’r meincnodau a’r prosesau sy’n ymwneud â darpariaeth. O ganlyniad, ni fydd gwerthusiad terfynol y Peilot yn gallu tynnu ar flwyddyn gyflawn o weithrediad. Felly, argymhellir rhoi ystyriaeth i’r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod Peilot mewn rhai ysgolion, neu ymhob ysgol, er mwyn sicrhau bod data digonol a data mwy cadarn ar gael o’r flwyddyn gyfan o weithredu ar gyfer y gwerthusiad terfynol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y gallai blwyddyn 2020-2021 gael ei heffeithio gan COVID-19 hefyd. Os nad yw estyniad yn ymarferol nac yn debygol o sicrhau’r data a ddymunir, dylid rhoi ystyriaeth i’r hyn a ganfuwyd ac a ddysgwyd o’r cynllun Peilot a’i werthusiad yn Lloegr, ochr yn ochr â chanfyddiadau’r adroddiad hwn ac unrhyw adroddiad terfynol neu ymchwil ychwanegol sy’n archwilio Peilot Cymru.

## 2. Cyflwyniad/Cefndir

2.1 Yn ystod haf 2018, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid i gynnal rhaglen Beilot ar gyfer Meincnodau Arweiniad Gyrfaol Da Gatsby yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf (RhCT). Nod y Peilot oedd canfod:

- Pa mor llwyddiannus yw'r Meincnodau o ran gyrru gwelliannau yn y ddarpariaeth gyrfaoedd mewn ysgolion yng Nghymru, yn arbennig yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru sydd ar y gweill.
- Pa mor briodol yw'r Meincnodau yng nghyd-destun Cymru.
- Pa mor addas a chynaliadwy yw'r Meincnodau.
- Cyfleoedd i rannu arferion arloesol.

2.2 Ym mis Ionawr 2019, penodwyd rheolwr prosiect ar gyfer y peilot gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) i gefnogi pob ysgol i ddeall y meincnodau, i helpu ysgolion i fapio eu darpariaeth yn erbyn y meincnodau, i 'safoni' asesiadau ysgol er mwyn sicrhau cysondeb, ac i helpu ysgolion i ddatblygu cynllun gweithredu a hunanasesu eu cynnydd yn barhaus.

2.3 Gwirfoddolodd pedair ysgol ar ddeg i fod yn rhan o gam cyntaf y Peilot ac, o fis Medi 2019, cymerodd bob ysgol uwchradd ran. Derbyniodd bob ysgol gronfa sbarduno o £2,000, wedi ei hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Diwygiad addysgol a darpariaeth addysg gyrfaoedd**

2.4 Mae diwygiadau addysgol estynedig Cymru, dan arweiniad ein 'Cenhadaeth Genedlaethol' a'r cwricwlwm addysgol newydd a ragwelwyd gan yr Athro Donaldson yn y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus', wedi eu hesbonio gan Lywodraeth Cymru yn y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau a safonau cynorthwyol. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno mewn camau, gan gychwyn gydag ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2022 a gorffen gyda'r cam terfynol (Blwyddyn 11) yn 2026.

2.5 Yn angori'r cwricwlwm mae pedwar diben sydd wedi eu pennu i gefnogi'r holl ddysgwyr i ddod:

- Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- Yn unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2.6 Ymhlyg yn y dibenion hyn mae'r dyhead i sicrhau fod pob dysgwr yn gallu symud ymlaen i fwynhau gyrfaoedd boddhaus.

2.7 Cyrchir y dibenion hyn drwy gyfrwng chwe maes gwahanol o ddysgu a phrofiad (MDPh) sy'n cyfuno â'i gilydd i gynnig cwricwlwm cyfoethog. Mae'r pwyslais cynyddol ac amlwg ar yrfaoedd a phrofiadau sy'n berthnasol i waith (CWRE) ymhob MDPh yn gais pellach i strwythuro cymorth gyrfaoedd i mewn i'r ddarpariaeth addysgol i bob dysgwr. Mae'r profiadau hyn yn cynnwys dysgu am rolau swyddi, archwilio buddion gwaith a gwerth parhau i ddysgu drwy gydol eich oes.

2.8 Yn y cyfamser, er bod disgwyl i'r cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd yn ddiweddar gael eu hadolygu ymhellach yn 2026 i alinio gyda'r Cwricwlwm i Gymru, maen nhw wedi symud eu ffocws er mwyn bod yn 'berthnasol i'r byd go iawn' a phrofiadau o fyd gwaith. Efallai mai'r enghreifftiau gorau o hyn yw cyflwyniad y cymhwyster Rhifedd Mathemateg a'r newidiadau i'r cynnwys mewn pynciau fel iaith Saesneg.

2.9 Ochr yn ochr â'r diwygiadau addysgol, mae CWRE a'i ragflaenydd, h.y. gyrfaoedd a byd gwaith (CWW), wedi darparu arweiniad i sefydliadau a darparwyr dysgu ar ddatblygu eu darpariaethau gyrfaoedd i bobl ifanc 11-19 oed ers mwy na degawd. Disgwylir i ysgolion a darparwyr ddatblygu a chyflenwi eu darpariaeth gyrfaoedd i gyfateb ag anghenion eu dysgwyr. Yn aml iawn, mae sefydliadau a darparwyr yn ystyried Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (a'r SCC) yn ddull o gynnig eu darpariaeth gyrfaoedd. Ystyrir yn eang, fodd bynnag, ac amlinellir yn eang hefyd fel rhesymeg ar gyfer rhaglen beilot y dull Meincnodi Gatsby, y bydd angen diweddaru addysg gyrfaoedd i adlewyrchu dull cyfannol y cwricwlwm newydd

2.10 Mae Gyrfa Cymru, sy'n is-gwmni dan berchnogaeth gyflawn Llywodraeth Cymru, yn chwarae rôl allweddol o fewn y sector, gan ddatblygu a darparu gwasanaethau yn unol ag agenda strategol Cymru. Mae Gyrfa Cymru'n gweithio gydag ysgolion i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol annibynnol o safon uchel i bobl

ifanc i'w helpu i wneud dewisiadau dysgu cadarn, datblygu eu galluoedd rheoli gyrfa a llwyddo yn y byd gwaith.

**Meincnodau Gatsby a darpariaeth gyrfaoedd ehangach y DU**

2.11 Datblygwyd yr adroddiad 'Good Career Guidance' gan Syr John Holman yn bennaf mewn ymateb i adroddiad Ofsted: 'Going in the Right Direction',[2] a nododd nad oedd tri chwarter yr ysgolion yn Lloegr yn cyflawni eu dyletswydd i ddarparu cyngor gyrfaoedd diduedd yn effeithiol.

2.12 Nododd yr adroddiad 'Good Career Guidance' gyfres o wyth meincnod y gall ysgolion eu defnyddio fel fframwaith i wella eu darpariaeth gyrfaoedd.[3] Y rhain oedd:

1. Rhaglen gyrfaoedd gadarn
2. Dysgu o wybodaeth y farchnad lafur a gyrfaoedd
3. Ymdrin ag anghenion bob disgybl
4. Cysylltu dysgu'r cwricwlwm gyda gyrfaoedd
5. Cwrdd â chyflogwyr a gweithwyr cyflogedig
6. Profiadau o weithfannau
7. Ymwneud ag addysg bellach ac uwch
8. Arweiniad personol

2.13 Mae llawer o ddarparwyr yn Lloegr wedi ymdrechu i dreialu'r dull, yn arbennig yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Roedd gwerthusiad interim o'r Peilot yn awgrymu bod y dull wedi arwain at effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth gyrfaoedd.[4] Mae ysgolion a cholegau wedi cymryd camau sylweddol tuag at gwblhau'r mwyafrif o'r Meincnodau o fewn dwy flynedd, ac mae dysgwyr wedi dangos cynnydd mewn rhai agweddau o'u parodrwydd am yrfa a chyflawniad TGAU. Ond, un rhwystr allweddol mae'n ymddangos yw diffyg amser o fewn y cwricwlwm i ddatblygu'r wyth Meincnod. Gyda'r ffocws cynyddol o fewn y Cwricwlwm i Gymru, gellid rhagdybio bod ysgolion Cymru mewn gwell sefyllfa i oresgyn y rhwystr hwn a sicrhau effeithiau tebyg (os nad mwy cadarnhaol). Mae canllawiau statudol 2018 ar gyfer arweiniad gyrfaoedd yn Lloegr yn nodi hefyd y dylai pob ysgol ddechrau defnyddio'r Meincnodau Gatsby i wella'r ddarpariaeth gyrfaoedd ac y dylent eu cyflawni erbyn diwedd 2020.

---

[2] Ofsted (2013). Going in the Right Direction? Careers guidance in schools from September 2012.
[3] https://www.gatsby.org.uk/uploads/education/reports/pdf/gatsby-sir-john-holman-good-career-guidance-2014.pdf
[4] https://www.gatsby.org.uk/uploads/education/careers/interim-exec-summary-final.pdf

2.14 Mae'r ffaith fod gwahaniaethau allweddol yn y ddarpariaeth gyrfaoedd oedd yn bodoli eisoes yn cyfyngu ar y gallu i gymharu'r profiadau yng Nghymru gyda'r profiadau yn Lloegr; ond mae potensial, wrth ddefnyddio'r Meincnodau i werthuso, nid yn unig i gefnogi'r cynllun Peilot yn Rhondda Cynon Taf ei hun i gael ei ddarparu'n llwyddiannus ac i godi tystiolaeth ohono, ond hefyd i hysbysu dulliau ehangach o gefnogi gyrfaoedd o fewn y sector addysg yng Nghymru sy'n esblygu a'r ymdrechion yn Lloegr i ddatblygu darpariaeth gyrfaoedd.

**Y Peilot Meincnodi Gatsby yng Nghymru**

2.15 Am fod newidiadau ar y gweill yn y Cwricwlwm i Gymru 2022, cydnabuwyd y byddai angen diweddaru'r fframwaith CWW/CWRE cyfredol i adlewyrchu'r ystod oedran ehangach a'r dull cyfannol o ddarparu'r cwricwlwm. Felly, penderfynwyd, gyda chefnogaeth gweinidogion, i dreialu'r Meincnodau Gatsby yng Nghymru gyda Pheilot i ganfod pa mor addas fydden nhw yng Nghymru.

2.16 Mae Peilot y Meincnodau ar waith ar hyn o bryd gyda'r holl ysgolion uwchradd, rhai Unedau Cyfeirio Disgyblion, pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref, ac (yn fwy diweddar) rhai ysgolion cynradd ledled Rhondda Cynon Taf. Cychwynnodd y Peilot dwy flynedd ym mis Ionawr 2019.

2.17 Sail resymegol y Peilot yw y gall dull Meincnodi Gatsby ychwanegu gwerth i addysg gyrfaoedd a chyflenwi pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Wrth dreialu'r dull yn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio archwilio'r potensial hwn a dysgu gwersi gwerthfawr o brofiadau ysgolion wrth iddynt ddatblygu addysg gyrfaoedd ymhellach yn ysgolion Cymru.

# 3. Methodoleg

3.1 Cafodd y gwerthusiad hwn ei gomisiynu gyda'r diben o ystyried y canlynol ar gam interim:

- Cyrchnodau disgyblion – yr effaith ar gyrchnodau ac ymwybyddiaeth disgyblion o lwybrau gyrfaoedd.
- Yr effaith ar gyflawniad disgyblion.
- Yr effaith ar barodrwydd disgyblon ar gyfer eu gyrfaoedd.
- Y Meincnodau – y galluogwyr a'r rhwystrau.
- Yr effaith ehangach – cymunedau/busnesau.
- Yr heriau cyffredinol.
- Gwneud Argymhellion, gan gynnwys sicrhau bod y Peilot yn cofnodi'r effaith lawn.

3.2 Defnyddiwyd pedair prif ffynhonnell ddata:

- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 7 aelod allweddol o staff rheoli a darparu.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag 14 Arweinydd Gyrfaoedd a phersonél allweddol mewn ysgolion/colegau.
- Data monitro a dogfennaeth projectau eraill.
- Arolwg ar-lein a ddosbarthwyd i staff yr ysgolion sy'n cymryd rhan drwy Arweinwyr Gyrfaoedd a'r rheolwr rhaglen. Derbyniodd yr arolwg 90 o ymatebion.

3.3 Yn dilyn cyfweliadau cwmpasu, gwelwyd y byddai'n her sylweddol mae'n debyg i ddangos tystiolaeth o effaith ar y cam interim hwn. O'r herwydd, daeth yn amlwg mai sylwadau'r Arweinwyr Gyrfaoedd a'r staff ysgol oedd y ffynonellau data cryfaf. Felly, y cyfweliadau lled-strwythuredig sy'n cyfrif am fwyafswm y data a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad interim hwn, ochr yn ochr â'r arolwg ar-lein (oedd yn gofyn nifer o gwestiynau ansoddol neu 'benagored').

3.4 Roedd yr ymatebion i'r cyfweliadau a'r arolwg wedi eu seilio ar y pethau yr oedd athrawon a staff wedi eu harsylwi. Felly, rhaid deall yr ymatebion yng nghyd-destun cyfyngiadau a manteision data o'r fath. Er eu bod yn deillio o brofiadau a gwybodaeth pobl broffesiynol sydd yn y lle gorau i roi sylwadau am y Peilot a'i effaith bosibl yn y dyfodol, mae'r sylwadau hefyd yn mynd i gynnwys dyfalu a thybiaethau. Er bod hon yn ffynhonnell ddata werthfawr ynddi ei hun, byddai ffynonellau eraill o ddata cyfnerthu'n cynyddu'r hyder yn y canfyddiadau hyn. Yn anffodus, fel y nodir yn yr adrannau perthnasol, mae llawer o'r effaith yn rhywbeth a ragwelir ac na fydd tystiolaeth ohoni ar y cam interim hwn – mae, yn hytrach, yn rhywbeth fydd ar gael yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu na all y gwerthusiad wneud

rhyw lawer i atgyfnerthu a chefnogi'r sylwadau proffesiynol a fynegwyd yn ystod y cyfweliadau a'r arolwg.

3.5 Mae'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn cynrychioli'r mwyafrif o ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn y Peilot. Er bod o leiaf un Arweinydd Gyrfaoedd o Ysgol Arbennig wedi ymateb i'r arolwg, nid oedd yr unigolyn (oedd wedi cysylltu â'r tîm gwerthuso'n bersonol) wedi ymateb i'r gwahoddiad i gyfrannu ymhellach drwy gyfweliad. O ganlyniad, mae'r tîm gwerthuso'n credu mai dim ond data cyfyngedig iawn sydd ar gael i dynnu casgliadau penodol ohono am gynllun Peilot Gatsby yng nghyd-destun Ysgolion Arbennig. Fodd bynnag, mae'r tîm yn credu y dylid ymchwilio ymhellach a rhoi sylw manylach i berthnasedd y Meincnodau i ysgolion o'r math yma.

3.6 Yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gydag 14 o Arweinwyr Gyrfaoedd o amrywiaeth o wahanol sefydliadau addysgol. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi cyfranogi mewn addysg gyrfaoedd yn eu sefydliad addysgol hwy cyn y Peilot Meincnodi Gatsby, tra bo'r mwyafrif hefyd yn rhan o'r Tîm Uwch-Arweinwyr. O fewn y sampl, roedd rôl un o'r rhai a gyfwelwyd o ddydd i ddydd yn fwy gweithrediadol ei natur, ac roedd yn ei ddisgrifio ei hun fel rheolwr adnoddau'r ysgol.

3.7 I ategu'r cyfweliadau ansoddol, ac i gynhyrchu mwy o ddata ansoddol a rhywfaint o ddata meintiol, lansiwyd arolwg ar-lein ar Ebrill 28 ac roedd hwn yn agored hyd 26 Mai. Dosbarthwyd yr arolwg ar-lein i athrawon ysgol Gatsby drwy Arweinwyr Gyrfaoedd a phobl eraill a gyfwelwyd a staff rheoli a darparu.

3.8 Diben yr arolwg oedd cynhyrchu data ar gyfer cefnogi'r data ansoddol. Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau ansoddol 'penagored' oedd yn adlewyrchu'r rheiny a ofynnwyd yn ystod y cyfweliadau, a chânt eu trafod yn yr adrannau a ganlyn ochr yn ochr ag ymatebion y cyfweliadau.

3.9 Fodd bynnag, am fod y sampl yn un a hunan-ddewiswyd, nid yw'r data'n gynrychiadol o boblogaeth addysgu ehangach ysgolion Gatsby ac ni ellir ei ystyried ar raddfa gyffredinol. Fodd bynnag, yn arbennig lle gwelir cydberthnasau sylweddol, mae'r data'n cynnig mewnwelediad a allai gefnogi data'r cyfweliadau a helpu i wneud synnwyr ohonynt. Dim ond i ryw raddau y gall data'r arolwg meintiol gefnogi'r data ansoddol, a hynny'n bennaf drwy ehangu ar sylwadau'r athrawon ymhellach na'r sampl a gyfwelwyd.

3.10 Derbyniodd yr arolwg 90 o ymatebion, er nad oedd y cwestiynau i gyd yn orfodol. Felly, mae’r cyfrifiad yn amrywio fesul cwestiwn. Daeth yr ymatebion o amrywiaeth o rolau o fewn yr ysgolion oedd yn ysgolion peilot i’r Meincnodau. Dyma fanylion y rolau sydd wedi eu cynrychioli gan ymatebion yr arolwg:

**Tabl 3.1: Manylion ymatebion yr arolwg fesul rôl**

| Rôl | Nifer |
|---|---:|
| Arweinydd Gyrfaoedd (rôl Beilot Meincnodi Gatsby) | 9 |
| Pennaeth/Dirprwy/ Tîm Uwch-Arweinwyr | 11 |
| Pennaeth Adran/Cyfadran | 11 |
| Athro | 14 |
| Cymorthyddion Addysgu (e.e. Cynorthwywyr Cymorth Dysgu) | 4 |
| Staff Gweinyddol yr Ysgol | 0 |
| Cynghorwyr Gyrfaoedd | 2 |
| Arall (Manylwch os gwelwch yn dda) | 6 |
| Ni Roddwyd y Manylion | 33 |
| **Cyfanswm** | **90** |

3.11 Rhannwyd yr ymatebion yn dibynnu ar eu cyfranogaeth yn y Peilot, fel y gwelir yn Nhabl 3.2 isod. Diffiniwyd cyfranogaeth fel unrhyw ymgysylltiad â’r rhaglen, neu ei gweithgareddau cysylltiedig, gan ymwneud felly ag athrawon oedd wedi cefnogi gweithrediad agweddau penodol iawn, neu arweinwyr oedd wedi goruchwylio’r rhaglen gyfan. Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr esbonio natur eu cyfranogaeth. Mae rhestr gynhwysfawr o ymatebion yn Atodiad A.

3.12 Mae’r data hwn yn gyd-destun sy’n allweddol i lawer o’r ymatebion i’r arolwg, a bydd y data yn aml iawn wedi ei gyflwyno yn y cyd-destun hwn isod, gan nodi a yw’r ymatebion a drafodwyd wedi dod gan y rheiny a gymerodd ran yn y gweithgareddau ai peidio.

**Tabl 3.2: Manylion ymatebion yr arolwg yn ôl y gyfranogaeth yn y Peilot Meincnodi Gatsby neu ei weithgareddau cysylltiedig**

| Yn rhan o’r Peilot? | Nifer |
|---|---:|
| Oedd | 42 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Nac oedd | 42 |

N=90

3.13 Wrth wneud yr ymchwil yn yr ysgolion cynradd, cyrhaeddodd y pandemig COVID-19 a’r ymateb dilynol ac yna gorfodwyd y cyfnod clo dan arweiniad Llywodraethau Cymru a’r DU. Creodd hyn rai anawsterau ar y dechrau o ran sicrhau cyfweliadau, a gwnaed y rhain i gyd dros y ffôn yn y diwedd. Credwyd bod yr anawsterau a

achoswyd gan y pandemig a’r mesurau cloi wedi cyfyngu ar allu rhai unigolion i gymryd rhan a chyfranogi yn yr ymchwil. Yn y pen draw, yr effaith fwyaf sylweddol ar y gwerthusiad oedd oedi o oddeutu pythefnos wrth i’r cyfweliadau gael eu trefnu a’u gweithredu. Fodd bynnag, mae cynrychiolaeth yr ysgolion uwchradd yn gryf o fewn y sampl o Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd, ac mae pob ysgol bron iawn wedi ei chynnwys.

# 4. Canfyddiadau

### Sail resymegol a chymhwysedd

4.1 Dywedodd y mwyafrif o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd mai nod y rhaglen Meincnodi Gatsby yw gwella a sicrhau addysg gyrfaoedd o ansawdd da.

> 'Ei nod yw sicrhau fod pob plentyn yn derbyn arweiniad gyrfaoedd annibynnol wedi'i deilwra (yn hytrach na'i fod yn beth generig ym Mlwyddyn 9 a 12). Rydym ar ddiwedd ein blwyddyn gyntaf ac mae'n helpu i gyflawni hynny – mae wedi ei deilwra'n llawer mwy nag ydoedd. I ni, mae wedi gwneud i ni newid ffocws y ffordd yr edrychwn ar yrfaoedd.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.2 Roedd oddeutu hanner yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd wedi nodi hefyd eu bod yn ystyried mai rhesymeg a sail resymegol Peilot Meincnodi Gatsby yw:

- sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar gyngor gyrfaol,
- cynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r opsiynau gyrfaol sydd ar gael iddynt,
- sicrhau bod y ddarpariaeth gyrfaoedd yn gyson ar draws ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, a
- galluogi dull o ddysgu am yrfaoedd sy'n integredig ar draws yr ysgol gyfan.

4.3 Roedd yr holl Arweinwyr Gyrfaoedd, heblaw am un, yn agored yn eu cefnogaeth o'r seiliau rhesymegol a nodwyd eisoes, gan ddangos hefyd bod eu profiadau pob dydd o'r rhaglen yn adlewyrchu'r nodau a'r sail resymegol.


> 'Credaf ei fod yn gweithio. Mae'n cyfateb â'r cwricwlwm newydd. Mae'n rhoi cyfleoedd i ni sy'n dangos i ni lle collwyd cyfle o'r blaen. Mae'n darparu egwyddorion a llwybrau clir, yn enwedig i ddisgyblion sydd heb ddiddordeb, mae'n ddull ysgol-gyfan da. Mae'n ymwneud â helpu unigolion i ddeall bod ganddynt olwg clir ar eu dyfodol.' (Cyfweliad Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.4 Cyfeiriodd un Arweinydd Gyrfaoedd at farn gymysg am y sail resymegol a rhesymeg y Peilot, gan awgrymu bod ychydig bach o 'ddiffyg cyfatebiaeth' rhwng amcanion y Meincnod a Marc Gyrfa Cymru, sy'n golygu bod archwiliadau ar wahân yn gallu bod nid yn unig yn feichus ond hefyd yn ailadroddus.

4.5 Yn gyffredinol, mae'r data'n awgrymu bod Arweinwyr Gyrfaoedd yn gefnogol o sail resymegol y rhaglen ac, yn wir, maen nhw'n mynd ymhellach na hynny mewn rhai sefyllfaoedd, gan awgrymu bod gan y rhaglen berthnasedd arbennig yng Nghymru am fod cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno. Mae'r un pryder hwnnw, sy'n ymwneud â dyblygu'r monitro ochr yn ochr â Marc Gyrfa Cymru, yn broblem a fyddai'n cael ei godi'n ddiweddarach mewn cyfweliadau.

4.6 Roedd data'r arolwg yn cefnogi'r syniad bod cefnogaeth eang i, ac aliniad gyda, nodau a sail resymegol rhaglen Meincnodi Gatsby. Mae Ffigwr 4.1 isod yn nodi nad oedd un ymatebwr wedi mynegi anghytundeb o unrhyw fath gyda'r sail resymegol.

**Ffigwr 4.1: I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r sail resymegol neu'r rhesymeg y tu cefn i raglen Meincnodi Gatsby?**




N=69

4.7 Awgrymodd pedwar ar ddeg o unigolion nad oeddent yn ymwybodol o resymeg na sail resymegol y rhaglen. Dangosodd dadansoddiad pellach bod 13 o'r unigolion hyn wedi nodi nad oeddent wedi cyfranogi yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen. Er y gellid disgwyl na fydd staff ehangach yr ysgol mor ymwybodol o sail resymegol cynllun Peilot, nodwyd bod ymrwymiad drwy'r ysgol gyfan yn y cyfweliadau cwmpasu gyda'r staff rheoli a darparu. Mae ymrwymiad o'r fath yn parhau'n her mewn rhai ysgolion.

**Ymgysylltiad ac ymrwymiad yr ysgol a'r arweinwyr ehangach**

4.8 Roedd y rheolwr a'r rhanddeiliaid o'r farn bod ymrwymiad gan yr arweinwyr uwch mewn ysgolion yn debygol o fod yn allweddol o ran hyrwyddo a chefnogi darpariaeth y Meincnodau, yn ogystal â helpu i sefydlu ymrwymiad a chydweithrediad gan staff ehangach yr ysgol.

> 'Os byddwch yn cychwyn ar y brig yn y ffordd gywir, cewch ymgysylltiad ar ei orau. Mae angen i chi gael yr ymrwymiad hwnnw gan y pennaeth a'r Tîm Uwch-Arweinwyr. Mae'r cynghorwyr gyrfaoedd ar waelod y pac fel arfer, [ond] drwy Gatsby rydym wedi ceisio codi statws yr Arweinwyr Gyrfaoedd fel bod ganddynt gysylltiad â'r Tîm Uwch-Arweinwyr.' (Cyfweliad Cwmpasu, 2020)

4.9 Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag bod y mwyafrif o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn dod o ysgolion oedd wedi gwirfoddoli neu ddangos diddordeb yn y Peilot a gellid eu hystyried, felly, yn bobl a fyddai'n tueddu bod eisiau ymrwymo i'r rhaglen. Mewn geiriau eraill, efallai na ellir defnyddio'r ysgolion hyn a chanfyddiadau'r ymchwil hwn i roi darlun hollol gyffredinol o boblogaeth ehangach ysgolion yng Nghymru.

4.10 Mae'r mwyafrif o bobl a gyfwelwyd o'r farn bod y Tîm Uwch-Arweinwyr a staff ehangach yr ysgol yn ymgysylltu'n dda â'r Peilot a'r meincnodau. Roedd yr ymgysylltiad hwn, yn ôl y cyfweliadau, yn cynnwys cyfraniadau gan athrawon a'r Tîm Uwch-Arweinwyr, ymgysylltu a chyd-ddatblygu gweithgareddau, a darparu ochr yn ochr â brwdfrydedd ehangach i gael eu cynnwys yn y broses a'i deall.

> 'Credaf ein bod yn ffodus iawn, am fod y staff yn falch o gael bod yn rhan o broses yr ysgol; nhw sydd wedi cyflwyno pob hyfforddiant a gynhaliwyd. O ran yr adran gwyddoniaeth, maen nhw erbyn hyn yn croesawu'r cyfle i hyrwyddo STEM. Credaf fod eglurder yr archwiliad wedi eu helpu i weld beth sydd angen ei wneud,' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

> 'Mae cyfranogaeth y Tîm Uwch-Arweinwyr yn hynod o effeithiol. Wedi dweud hynny, mae'r un peth yn wir am yr ysgol gyfan […] Mae'r profiad gwaith wedi saethu i fyny ac rydym wedi codi ein safon – mae'r staff yn mapio ymhle maen nhw'n defnyddio [yr archwiliad] ac maen nhw eisiau ei ddefnyddio. Mae gyrfaoedd yn rhan integrol o wersi erbyn hyn.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.11 Yn y lleiafswm o achosion lle’r oedd y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod ymgysylltiad yr ysgol ehangach gyda’r Peilot a’r meincnodau yn gyfyngedig, nodwyd yn aml mai’r rheswm tebygol am hynny oedd bod cydweithwyr yn ystyried mai rhan o gylch gwaith yr Arweinydd Gyrfaoedd yn unig oedd dysgu am yrfaoedd. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd y byddai hyn yn newid dros amser unwaith y byddai gwell dealltwriaeth o’r Peilot ac unwaith y byddai wedi integreiddio ochr yn ochr â’r cwricwlwm newydd.

> ‘Rwy’n teimlo mai dim ond ni sydd (fi a’r rheolwr llinell). Mae gweddill yr ysgol yn ymuno â ni yn yr wythnos gyrfaoedd, ond (yn gyffredinol) fi yw’r person gyrfaoedd ac mae pethau’n cael eu hanfon ataf i yn unig (yn hytrach na chael eu gwneud drwy’r cyfadrannau). Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw’n ymwybodol bod angen i bethau fynd drwy’r cyfadrannau. Rydw i’n siŵr y bydd trefn yn y diwedd, ond dydyn ni ddim yno eto. Dim ond yn awr maen nhw’n dechrau dod i ddeall sut i ddarparu yn y ffordd y mae’r cwricwlwm newydd yn ei ofyn, ac maen nhw’n gweld Gatsby fel peth arall y mae’n rhaid iddyn nhw geisio dod i’w ddeall. Mae’n mynd i gymryd ychydig flynyddoedd i ddatblygu dyna’i gyd.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.12 Fodd bynnag, roedd yr Arweinwyr Gyrfaoedd yn llai hyderus am yr ymrwymiad gan y gweithlu addysgu ehangach ac hefyd gan y rhieni, er eu bod yn ystyried y rhain yn allweddol er mwyn gweithredu’r meincnodau’n llwyddiannus ledled yr ysgol. Roedd nifer fawr yn ystyried mai un rheswm allweddol am y diffyg ymroddiad eang oedd mai ychydig iawn o amser oedd wedi bod hyd hynny i ddatblygu dull integredig.

4.13 Teimlwyd bod yr her o ran adnoddau yn waeth mewn sefydliadau addysgol lle’r oedd nifer fawr o ddysgwyr ac athrawon. Fel y nodwyd isod, dywedwyd yn betrus mai’r rheolwyr canol (penaethiaid adran/cyfadran) oedd galluogwyr a hyrwyddwyr allweddol yr ymroddiad ymysg y gweithlu addysgu, tra bo’r rhieni’n her fwy cymhleth.

> ‘Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw beth o’i le gyda’r [meincnodau]. Mae rhai gwendidau, er enghraifft mae ochr y rhieni yn broblem i ni. Hoffwn weld mwy o bwyslais ar hynny a sut i’w gyflawni, oherwydd ar y funud mae’n weddol gymylog.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.14 Ochr yn ochr â lefelau gweddol uchel o ymgysylltiad â'r Peilot a'r meincnodau, dywedodd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd hefyd bod rôl yr Arweinydd Gyrfaoedd wedi ei hintegreiddio'n dda i mewn i leoliadau addysgol. Yn arbennig, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd bod y rôl a ffurfiolwyd wedi helpu ei hintegreiddiad a bod yr integreiddiad hwnnw wedi digwydd ar draws yr ysgol/coleg cyfan. Roedd rhai pobl yn awgrymu bod hyn wedi sicrhau bod ganddynt reolaeth dros y rôl, eu bod yn cael eu cydnabod am eu gwaith, a'u bod yn gallu dylanwadu ar y dysgu

> 'Wedi integreiddio gant y cant yn awr. Teimlaf fy mod yn cael llawer o ddylanwad o ran yr agwedd gyrfaoedd i ddweud y gwir. Mae'r geiriad yn addas ac rwy'n teimlo fy mod yn arwain yn y maes gyrfaoedd yn y coleg a bod cefnogaeth y Tîm Uwch-Arweinwyr yn helpu gyda hynny – rwyf wedi integreiddio a sefydlu'n llawn erbyn hyn.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020).

> 'Rydym yn cael llawer o gefnogaeth yn ein hysgol ni beth bynnag. Rydym yn cael ychydig mwy o gydnabyddiaeth a chefnogaeth nag yr oeddem yn ei gael beth bynnag. Mae'r rôl yn llawer mwy ffurfiol erbyn hyn, felly credaf ei bod yn cael ychydig bach mwy o flaenoriaeth nag ydoedd mewn llawer o achosion. Mae'n gyfle yn awr i gael y gydnabyddiaeth honno.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.15 Yn debyg i'r rhai a gyfwelwyd a soniodd am ymgysylltiad cyfyngedig yn y Peilot gan gydweithwyr a'r Timau Uwch-Arweinwyr, roedd yr unig unigolyn a awgrymodd bod y rôl heb ei hintegreiddio'n dda yn awgrymu mai'r rheswm am hynny oedd bod pobl yn dal i ystyried dysgu gyrfaoedd yn rhywbeth oedd yn gyfyngedig i'w cylch gwaith a'u cyfrifoldebau nhw yn unig.

4.16 Soniwyd mewn rhai cyfweliadau bod rheolwyr canol (penaethiaid adran/cyfadran) yn allweddol o bosib yn y broses o sicrhau ymroddiad gan staff addysgu'r ysgol. Roedd safleoedd rheoli canol yn aml yn allweddol o ran sicrhau ymrwymiad, newid diwylliannol ac annog ymgysylltiad gan staff.

4.17 Mae Arweinwyr Gyrfaoedd yn llawer mwy blaenllaw yn yr amgylchedd ysgol nag y byddai unrhyw ddarpariaeth gyrfaoedd blaenorol wedi bod – ffactor sy'n cyfrannu at yr atebolrwydd canfyddedig.

4.18 Mae'r aliniad a'r cytundeb gyda nodau a sail resymegol gyffredinol y rhaglen, fel yr awgrymwyd gan y data a gyflwynwyd yn Ffigwr 4.1 uchod, yn awgrymu bod ymroddiad ehangach i nodau'r rhaglen hefyd.

**Gweithrediad a darpariaeth**

4.19 Roedd y rhan fwyaf o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn awgrymu mai dim ond yn rhannol yr oedd y Peilot Meincnodi Gatsby wedi ei weithredu a'i sefydlu o fewn eu sefydliadau addysgol hyd yn hyn. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn gyffredinol yn disgrifio gweithrediad a sefydliad y meincnodau fel 'proses', a fyddai'n cymryd amser a rhagor o ddatblygiad a mireinio (os nad yn barhaus). Mewn rhai achosion, awgrymodd yr Arweinwyr Gyrfaoedd eu bod wedi sefydlu rhai meincnodau'n effeithiol, ond nid pob un.

> 'Rydym ar daith. Dydyn ni ddim wedi gwneud [y meincnodau i gyd] ond dw i ddim yn credu bod modd eu hymwreiddio nhw i gyd o fewn blwyddyn. Mae'n gofyn rhaglen, y cynllun a'r staff. Mae mapio yn bwysig i ni ac maen nhw'n rhan o'n cyfarfodydd.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.20 Mae Atodiad C yn rhoi data archwiliadau ysgolion unigol, gan ddangos y cynnydd a wnaed tuag at ddarparu pob meincnod ar yr archwiliadau cyntaf ac ail. Cyflwynir y data ar ffurf system oleuadau traffig, ac mae'n awgrymu amrywiaeth eang o gamau gweithredu ar draws yr awdurdod lleol. Cynigiwyd ystod o resymau fel esboniadau am yr amrywiaeth hwn, o arferion oedd yn bodoli'n barod i heriau sy'n ymwneud â dangos tystiolaeth o gynnydd. Ni chodwyd unrhyw bryderon difrifol gan y rheolwr rhaglen, fodd bynnag, mewn perthynas â gweithrediad y meincnodau, ac awgrymodd y rheolwr hefyd nad yw'r archwiliadau wedi eu cynllunio ar gyfer cymhariaeth mae'n debyg, dim ond i arwain ysgolion unigol wrth iddynt deithio tuag at ddatblygu'r holl feincnodau. Yn y pen draw, roedd cyd-destunau penodol a lleol bob amser yn esbonio'r amrywiaeth yn y gweithrediad.

4.21 Yn wir, mae ystyried y cyd-destunau ysgol-benodol a ddisgrifiwyd gan yr Arweinwyr Gyrfaoedd mewn cyfweliadau ac amrywiaeth o "fannau cychwyn" i bob ysgol unigol yn ychwanegu at y llun a ddarlunir gan yr archwiliadau. Mae ysgolion yn cychwyn mewn gwahanol safleoedd mewn perthynas â phob meincnod ac mae rhai ysgolion yn elwa o fanteision cynhenid neu'n dioddef anfanteision sydd y tu allan i'w rheolaeth uniongyrchol. Bydd darpariaeth addysg gyrfaoedd oedd yn bodoli cyn cyflwyniad y meincnodau'n cael dylanwad sylweddol ar y cynnydd a wneir, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n bwysig nodi nad yw data'r archwiliad yn cynnig dull cadarn o gymharu cynnydd ysgolion unigol na'u rhoi yn eu trefn restrol.

4.22 Fodd bynnag, mae'r data sy'n ymwneud â'r cynnydd cyffredinol a wneir tuag at dargedau meincnodau, fel y maent wedi eu hamlinellu yn Nhabl 4.1 isod, yn awgrymu ei bod hi'n dod i'r amlwg bod rhai meincnodau'n anoddach i'w cyflawni nag eraill. Ni wnaethpwyd unrhyw gynnydd tuag at gyflawni meincnodau 2, 4 a 6 yn hanner yr ysgolion neu fwy.

4.23 Roedd y rheolwr project yn teimlo bod y cynnydd yn arafach mewn perthynas â Meincnodau 2 (Dysgu o wybodaeth y farchnad gyrfaoedd a llafur) a 4 (Cysylltu'r cwricwlwm gyda gyrfaoedd) oherwydd yr heriau sy'n gysylltiedig â dangos tystiolaeth a sicrhau bod 91% o ddysgwyr (h.y y targed) yn derbyn darpariaeth ystyrlon. Ymhellach, mae'n debygol ei bod hi'n mynd i gymryd amser i sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnwys addysg gyrfaoedd, yn arbennig am fod y cwricwlwm ei hun yn y broses o gael ei ddiwygio a'i weithredu mewn ysgolion.

> '…mae'r cynnydd wedi bod yn arafach yma, am fod ysgolion wedi treulio amser yn ystyried sut i gofnodi a thracio'r profiadau hyn, sydd wedi bod yn heriol. Mae angen iddynt allu dangos tystiolaeth bod 91% o ddisgyblion wedi cael y profiadau gyda'r farchnad lafur neu mewn meysydd o'r cwricwlwm, ac mae angen i'r systemau hyn fod yn gadarn er mwyn sicrhau bod y cynnydd yn y meysydd hyn yn ystyrlon… Byddwn hefyd yn cytuno eu bod angen amser i ymgorffori'r elfennau hyn o'r meincnodau a bydd y cysylltiadau â'r cwricwlwm newydd yn cael effaith fawr ar feincnod 4 yn arbennig. Mae Arweinwyr Gyrfaoedd o'r Peilot sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn grŵp i Lywodraeth Cymru yn cynllunio gyrfaoedd ar draws y cwricwlwm yn y cwricwlwm newydd. Mae llawer o drafodaeth ynglŷn â sut y gall Gatsby gefnogi hyn a sut mae'n ffitio.' (Rheolwr Project, 2020)

4.24 Yn y cyfamser, ystyriwyd mai Meincnod 5 oedd y meincnod mwyaf heriol i'w fodloni, yn arbennig mewn ysgolion lle nad oedd cynllun profiad gwaith yn ei le yn barod. Ystyrir y gwaith o sefydlu proses o'r fath yn waith arbennig o galed sy'n cymryd llawer o amser, er bod gwaith yn digwydd i archwilio dulliau amgen a mwy hygyrch o sicrhau bod dysgwyr yn derbyn profiad gwaith.

‘O’i roi yn syml, mae’n lawer iawn o waith i ysgol anfon disgyblion allan ar brofiad gwaith. Mae ysgolion sydd â systemau a staff yn eu lle i wneud hynny’n hanesyddol wedi cyflawni’r meincnod hwn yn hawdd, ond mae’r rheiny sydd heb yn ei chael hi’n anodd. Rydym newydd gynnig wythnos o brofiad rhithwir gydag ystod o fideos a gweithgareddau i helpu disgyblion i gael rhyw fath o brofiad o’r gweithle. Credaf y bydd y math hwn o adnodd yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen.’ (Rheolwr Prosiect, 2020)

4.25 Roedd rhai meysydd lle’r oedd consensws ymysg Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd mewn perthynas â meincnodau penodol a’r heriau sy’n gysylltiedig â gwneud cynnydd. Yr un eithriad oedd Meincnod 8: cyfweliadau gyrfaol diduedd un i un. Roedd nifer o Arweinwyr Gyrfaoedd, yn arbennig mewn ysgolion mwy, yn awgrymu ei bod hi’n arbennig o heriol ceisio sicrhau cyfweliadau un i un gyda’r holl ddysgwyr (neu 90% ohonynt). Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i gynghorwyr gyrfaoedd ddarparu cyfweliad un i un i bob person ifanc ac, felly, nid oes ganddynt yr amser na’r gallu i gyflawni hynny.

4.26 Soniodd rhai hefyd am y gofyniad i’r cyfweliadau gael eu gweithredu gan gynghorwr gyrfaoedd cymwysedig, gan awgrymu nid yn unig bod hyn yn arbennig o heriol, ond hefyd bod athrawon ac Arweinwyr Gyrfaoedd yn gallu cynnig arweiniad digonol i rai dysgwyr ond, heb y cymhwyster, na fyddai’n cyfri tuag at yr archwiliad. Rhaid nodi, fodd bynnag, y bydd cynghorwyr Gyrfa Cymru wedi eu hyfforddi’n benodol yn ogystal â bod yn gymwysedig i roi arweiniad gyrfaol, tra bo nifer o athrawon yn annhebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant o’r fath.

‘Gyda [Meincnod 8] mae’n sôn am gynghorwr gyrfaol sydd wedi’i hyfforddi’n briodol. Dim ond cynghorwr Gyrfa Cymru rhan amser sydd gennym, felly allwn ni ddim gwneud cymaint â hynny. Os bydd [staff arall] yn gwneud y cyfweliadau hynny ac rydyn ninnau’n gwneud hynny dydyn nhw ddim yn cyfri, am nad ydyn nhw’n gynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig. Maen nhw’n cael llwyth o arweiniad personol ond nid yw’n cyfri yn nhermau Gatsby. Nid yw cyfweliad 20 munud gyda chynghorwr gyrfaoedd yn cymharu gyda’r lefel o gysylltiad personol parhaus a gânt gyda’r cynghorwyr yma sydd heb eu hyfforddi. Mae ein cynghorwr ni’n fwy addas ond hid yw’n cyfri.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd 2020)

**Tabl 4.1: Cynnydd o ran y meincnodau (yr holl ysgolion)**

| Meincnod | Y cynnydd a wnaed | Yn taro'r targed neu'n uwch | Dim cynnydd |
|---|---|---|---|
| Meincnod 1: Rhaglen gyrfaoedd strwythuredig | 71% | 14% | 14% |
| Meincnod 2: Arweiniad diduedd i Flynyddoedd 8–13 | 36% | 14% | 50% |
| Meincnod 3: Y rhaglen gyrfaoedd wrthi'n codi dyheadau | 36% | 36% | 29% |
| Meincnod 4: Yr holl athrawon yn cysylltu cwricwlwm gyda gyrfaoedd | 36% | 29% | 36% |
| Meincnod 5: Mae cyfleoedd i bob disgybl ddysgu gan nifer o gyflogwyr | 7% | 43% | 50% |
| Meincnod 6: Profiadau o'r gweithle | 7% | 36% | 57% |
| Meincnod 7: Mae'r holl ddisgyblion yn deall yr ystod gyfan o gyfleoedd dysgu | 14% | 43% | 43% |
| Meincnod 8: Cyfweliadau gyrfaoedd diduedd un i un | 21% | 43% | 36% |

4.27 Roedd data o'r archwiliad penodol i ysgol yn awgrymu bod y mwyafrif o ysgolion yn symud yn eu blaenau mewn perthynas ag o leiaf dau o'r meincnodau, gyda'r mwyafrif yn dangos cynnydd mewn perthynas â nifer ohonynt. Dim ond un ysgol a fethodd wneud cynnydd mewn perthynas ag unrhyw feincnod o gwbl. Mae'r data'n cefnogi sylwadau a wnaed gan Arweinwyr Gyrfaoedd, fel y trafodwyd yn fanwl isod, mewn perthynas â defnyddio'r archwiliad fel ffordd o ganfod a chefnogi cynnydd.

4.28 Pan ofynnwyd iddynt sut roedd y meincnodau Gatsby yn cael eu gweithredu a'u sefydlu, roedd yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn awgrymu'n aml iawn eu bod yn mapio'r meincnodau ar sail eu harchwiliadau, ac mae hynny wedi arwain at ddatblygu gweithgareddau a hunan-werthusiadau sy'n sicrhau eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o'r meincnodau. Daeth hi'n amlwg bod yr archwiliad yn fwy na theclyn monitro, am ei fod hefyd yn 'fap' i ganfod bylchau mewn darpariaeth a thywys datblygiad yr addysg gyrfaoedd, gan hefyd ddatblygu hyder pobl eu bod yn gwybod beth yw'r 'camau cywir'.

4.29 Roedd y mwyafrif o'r bobl a gyfwelwyd yn awgrymu bod eu proses o weithredu a sefydlu'r meincnodau yn broses ailadroddus a ddatblygodd yn unol ag anghenion a chapasiti'r ysgol/coleg.

> 'Mae gennym raglen meddalwedd a ddefnyddiwn drwy'r flwyddyn gron ac sy'n gadael i ni gydnabod yr hyn y gallwn ei wneud. Yna, o'r archwiliad, gallwn weld yr hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno ac yna gallwn ddefnyddio'r meddalwedd Gatsby i'n helpu i dracio a dangos pa feincnodau yr ydym yn gweithio tuag atynt a beth sydd wedi ei gyflawni.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)


4.30 Cafwyd croeso cynnes iawn gan yr Arweinwyr Gyrfaoedd i'r gronfa sbarduno o £2,000 ar gyfer gweithredu a sefydlu Peilot Meincnodi Gatsby. Defnyddiwyd y gronfa hon mewn nifer o wahanol ffyrdd ar draws y sefydliadau addysgol. Y ffordd fwyaf cyffredin, yn ôl yr hyn a awgrymwyd gan y rhai a gyfwelwyd, oedd defnyddio rhan o'r ariannu i dalu am athro cyflenwol i alluogi i Arweinwyr Gyrfaoedd fynd ar gwrs hyfforddi a/neu i helpu gyda thripiau a digwyddiadau gyrfaol. Ymhellach, roedd y rhai a gyfwelwyd wedi awgrymu'n aml iawn bod cyfran o'u cronfa sbarduno wedi cyfrannu at ddarparu addysg gyrfaoedd. Yn benodol, gwariwyd y gronfa ar dripiau yn ymwneud â gyrfaoedd, ffeiriau gyrfaoedd, adnoddau ar gyfer datblygu eu haddysg gyrfaoedd, a sicrhau bod addysg gyrfaoedd yn hygyrch i bob dysgwr.

> 'Mae'r ariannu wedi gadael i mi a'm cynorthwyydd gael amser yn rhydd o'r amserlen. O ganlyniad, gallwn gael staff cyflenwi i mewn. Dydyn ni ddim wedi ei wario i gyd i fod yn onest. Mae'n cael ei wario'n bennaf ar rannu arferion da, cyrsiau gyrfaoedd drwy Gyrfa Cymru, a staff cyflenwol. Roedd cymryd disgyblion i ffeiriau gyrfaoedd yn wariant arall, ond nid yw wedi ei wario i gyd am fod y flwyddyn hon wedi ei thorri'n fyr [o ganlyniad i'r pandemig]. Rydym yn mynd i ddefnyddio rhywfaint o'n gwaith gyrfaoedd yn yr haf gyda'r profiad gwaith. Mae'n helpu gyda hygyrchedd i'r rheiny sy'n methu ei fforddio – gallwn helpu'n fewnol wedyn.' (Cyfweliad gydag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.31 Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr roi sylwadau am yr effaith y mae gweithrediad y meincnodau wedi'i chael, yn benodol yr amser, yr hyfforddiant, yr agwedd ariannol a chostau adnoddau eraill i ddarparu addysg gyrfaoedd. Awgrymodd nifer sylweddol o ymatebwyr nad oedden nhw'n gwybod pa effaith y mae'r gweithrediad wedi ei chael; mae hyn yn ganlyniad y gellid ei ddisgwyl o gofio mai dim ond arweinwyr uwch neu Arweinwyr Gyrfaoedd oedd yn debygol o allu cael gafael ar wybodaeth o'r fath. O'r rheiny a fynegodd farn, yr ymatebion yn bennaf oedd bod y costau hyfforddi ac ariannol tua'r un fath neu ychydig yn uwch nag o'r blaen, a bod y mwyafrif o'r costau adnoddau eraill tua'r un fath, gyda lleiafrif yn awgrymu eu bod ychydig yn fwy; yn y cyfamser awgrymodd y mwyafrif bod gweithredu'r meincnodau'n cymryd mwy o amser na gweithredu'r addysg gyrfaoedd cyn y Peilot. Ym marn yr ymatebwyr, mae'n debyg bod y meincnodau'n cymryd mwy o amser i'w gweithredu a gallent greu rhai costau ychwanegol mewn perthynas â hyfforddi, ariannu a gwariant arall ar adnoddau. Mae'r dull Gatsby yn cydnabod hynny'n ymhlyg, drwy ei bwyslais ar yr angen am swyddog cydlynu canolog ar ffurf

Arweinydd Gyrfaoedd, a'r gofyniad am gyfranogaeth a chyfraniad ehangach ar draws y cwricwlwm.

**Ffigwr 4.2: Pa effeithiau mae gweithrediad y meincnodau Gatsby wedi eu cael ar yr agweddau dilynol?**




N=62

4.32 Roedd awgrym hefyd bod rhywfaint o amrywiaeth yn narpariaeth y meincnodau. Roedd rhai ysgolion yn ymdrechu i sefydlu addysg gyrfaoedd ym mhrofiad y dysgwr a'i wneud yn ddarpariaeth brif ffrwd. Fodd bynnag, roedd eraill yn ceisio cwblhau cymaint o feincnodau ag y gallent gyda 'wythnosau gyrfaoedd' penodol. Felly er bod y meincnodau'n cael eu cyflawni ymhob achos, efallai bod ansawdd profiad y dysgwyr yn wahanol i'w gilydd.

4.33 O'r data cyfyngedig iawn sydd ar gael, roedd awgrym y bydd Ysgolion Arbennig yn cael trafferth cyflawni rhai targedau penodol neu nad yw'r targedau'n hollol briodol ar gyfer y lleoliad a'r cyd-destun hwn. Credid bod llwybrau gyrfaol a dyheadau a chyrchnodau'r dysgwyr yn wahanol a bod materion mwy cymhleth i'w hystyried yn aml iawn mewn perthynas â'r dysgwyr hyn.

> 'Rwy'n gweithio mewn ysgol Anghenion Addysgol Arbennig ac ni fydd y mwyafrif o'n myfyrwyr yn gallu cael swydd gyda chyflog.' (Ymateb i'r Arolwg, 2020)

**Hyfforddiant**

4.34 Dywedodd oddeutu hanner yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant Gyrfa Cymru[5] yn rhan o'u cyfranogaeth gyda'r Peilot Meincnodi Gatsby, neu eu bod wedi ymadael cyn ei orffen. Awgrymodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd nad nhw oedd yr unigolion priodol i dderbyn hyfforddiant o'r fath (h.y. nid nhw oedd yr Arweinydd Gyrfaoedd dynodedig ar y pryd hwnnw, neu doedden nhw ddim yn teimlo bod angen yr hyfforddiant arnynt). Yn yr achosion eraill, awgrymodd yr Arweinwyr Gyrfaoedd bod cefnogaeth gyfyngedig ar gael, a'i bod hi wedi bod yn anodd sicrhau budd arwyddocaol o'r hyfforddiant.

4.35 Pan gawsant eu gwasgu mewn cyfweliadau, fodd bynnag, datgelwyd problem arall oedd yn rhwystr sylweddol a chyffredin: roedd y rheiny oedd heb gwblhau'r hyfforddiant yn tueddu i awgrymu bod maint y gwaith oedd yn ofynnol wedi cyfrannu at eu penderfyniad a bod y cymhwyster hwn yn cael ei ystyried yn un heriol. Nid oeddent yn debygol o dderbyn digon o amser yn rhydd o'u cyfrifoldebau ysgol/coleg eraill i gwblhau'r cymhwyster ac, felly, dim ond yn eu hamser eu hunain y gallent ei gwblhau.

4.36 Ymhellach, mae addysg gyrfaoedd yn gyfrifoldeb/rôl sy'n cael ei basio'n aml o athro i athro bob ychydig flynyddoedd, nid llwybr gyrfaoedd i unigolyn. Felly, o ganlyniad, nid oedd cymhwyster gyrfaoedd yn apelio at y mwyafrif o athrawon, oedd mewn gwirionedd yn edrych ar wneud y rôl am ychydig flynyddoedd yn unig.

4.37 Fodd bynnag, am nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant, dylid bod yn ofalus iawn wrth ystyried eu barn am ansawdd a defnyddioldeb yr hyfforddiant.

4.38 Roedd y rheiny oedd wedi cymryd rhan yn hyfforddiant Gyrfa Cymru yn awgrymu ei fod yn ddefnyddiol, gan dynnu sylw yn arbennig at y ffaith ei fod yn eu hannog i ystyried gweithredu addysg gyrfaoedd yn gynharach a defnyddio dulliau ar draws yr ysgol gyfan.

> 'Ydw, yn mynd trwyddo ar hyn o bryd – mae'n dda […] rwy'n teimlo ei fod yn fy ngwthio i weithio ar yrfaoedd yn llawer cynharach. Dydy'r aseiniadau ddim yn rhy gymhleth ond maen nhw'n eich hybu i fyfyrio'n ystyrlon a rhannu arferion da a chefnogi eich gilydd.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

---

[5] Yn benodol, y Diploma Lefel 6 mewn Datblygu Arweiniad Gyrfaol. Mae'r manylion ar gael yma: https://www.cotw-training.co.uk/courses/level-6-diploma-in-career-guidance-development/

4.39 Er bod y rhai a gyfwelwyd wedi nodi defnyddioldeb achrediad y cymhwyster a'r hyfforddiant, roedd hyd yn oed y rheiny oedd wedi cwblhau'r cymhwyster yn awgrymu bod yr amser sy'n ofynnol i gwblhau'r hyfforddiant a'r cymhwyster yn gallu bod yn heriol. Awgrymodd y rhai a gyfwelwyd ei bod hi'n anodd, oherwydd eu cyfrifoldebau eraill, i ganfod yr amser i gwblhau'r aseiniadau. Mewn rhai achosion, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd bod y sefydliadau addysgol lle'r oedden nhw'n gweithio yn gadael iddyn nhw gael cyfnod byr o amser hyfforddi, ond doedden nhw ddim yn fodlon ymestyn hynny er mwyn cynnwys amser aseiniad. Mae hyn yn awgrymu bod gallu Arweinwyr Gyrfaoedd i gael ei hachredu a mynychu hyfforddiant yn cyfateb â'r ymrwymiad gan sefydliadau addysgol a/neu eu gallu i ddarparu staff cyflenwi. Dywedodd un unigolyn a gyfwelwyd:

> 'Cefais y ddau ddiwrnod hyfforddi'n ddefnyddiol iawn ac mae'r arweiniad yn dda. Mae'r cyfle'n ddefnyddiol i ddysgu arferion da a dysgu gan eraill. Y gwaith sydd ei angen yn gefn iddo, (wrth gwrs) rydym oll yn brysur iawn, [felly] dim ond un cyflwyniad rydw i wedi'i gwblhau. Ond mae llawer iawn o waith i'w wneud. Rwy'n gwybod bod rhywfaint o drafodaeth wedi bod am wneud y cwrs ond nid yr achrediad. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw fy mod, ar gyfer yr aseiniad cyntaf, wedi fy nghau fy hun yn y stydi ar gyfer yr aseiniad, ar ôl gwneud yr aseiniad. Er ei fod wedi cymryd llawer o amser a'i fod yn rhwystredig, byddwn yn dweud ei fod wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi ynglŷn â gallu dangos yr hyn rwyf wedi ei wneud. Roedd fy mhennaeth yn hapus i mi wneud yr hyfforddiant – dyna dri diwrnod. Os byddwn i'n mynd ati ac yn dweud fy mod angen dau ddiwrnod yn rhydd bob tymor i wneud yr aseiniadau, rwy'n hyderus mai'r ateb fyddai "na". (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

**Prosesau monitro**

4.40 Roedd bron bob un o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn cytuno bod y prosesau monitro sydd yn eu lle wedi eu galluogi i dracio cynnydd yn effeithiol ac wedi eu cefnogi i sefydlu a datblygu meincnodau Gatsby. Awgrymodd y mwyafrif mai'r rheswm am hynny oedd bod y prosesau'n glir a chyson, ac am eu bod yn deall eu bwriad a sut y gellid eu gweithredu o fewn eu lleoliad.

> 'Dw i'n meddwl bod y profiad wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn. Mae'n ymwneud â rhoi ar bapur yr hyn yr ydym yn ei wneud yn barod ac amlygu'r pethau rydym yn gallu eu gwneud yn dda yn barod. Yna mae hyn yn bwydo i mewn i'n cynllun gwella.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

> ‘Rydym yn gwneud gwerthusiadau gyda disgyblion. Maen nhw’n rhoi adborth ar ôl pob gweithgaredd. Rwy’n cael cyfarfodydd gyda thiwtoriaid. Mae pennaeth Gyrfa Cymru’n eistedd ar ein panel. Rwyf bob amser yn agored i syniadau newydd ond mae hyn yn gweithio i ni. Rydym yn cael ein mentora hefyd. Maen nhw hefyd yn rhoi adroddiadau ymgysylltiad i ni. Dydyn nhw ddim yn rhoi unrhyw wybodaeth uniongyrchol i ni ond mae’n cael ei chofnodi. Mae’n dangos hefyd nad yw’r bechgyn yn mewngofnodi cymaint,’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.41 Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn tynnu sylw’n rheolaidd at y gefnogaeth roedden nhw wedi ei derbyn gan y rheolwr project, yn ogystal â’r arweiniad a ddarparwyd ar gyfer monitro a chefnogi.

> ‘Da iawn. Mae person da yno sy’n dod i mewn – mae’n gefnogol. Fyddem [ni] ddim wedi gallu ei wneud heb y [rheolwr rhaglen]. (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.42 Er bod rhai o’r bobl a gyfwelwyd yn dangos hefyd eu bod nhw’n sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu ar gyfer archwiliadau, roedden rhai’n barnu bod y data’n bwydo i mewn i’r prosesau rheoli ac yn hybu ymwybyddiaeth ehangach o’r ddarpariaeth gyrfaoedd drwy’r ysgol gyfan. Roedd hyn yn awgrymu bod yr archwiliadau eu hunain yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i sicrhau cydymffurfiad a darpariaeth.

> ‘Mae’r archwiliadau’n dda iawn, Maen nhw’n ddigon clir. Yr hyn rwy’n tueddu ei wneud yw cynnwys staff fel eu bod nhw’n gallu gweld beth sy’n digwydd a sut y gallent gefnogi’r broses, ac mae hynny wedi helpu i fwydo i mewn i’n hysgol gyfan.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.43 Mewn un achos lle dywedodd un person a gyfwelwyd nad oedden nhw’n fodlon gyda’r prosesau monitro cyfredol, roeddent yn awgrymu eu bod wedi ei chael hi’n anodd rhoi tystiolaeth o’r meincnod. Yn arbennig, awgrymwyd eu bod wedi ei chael hi’n anodd dangos yr effaith neu ddarparu tystiolaeth o’r effaith – y tu hwnt i fod yn bresennol mewn gweithgareddau neu fesur gweithgaredd neu allbwn.


> Gweddol anodd. Mae’n rhaid i ni weithio arno. Rydyn ni’n gwneud llawer o’r pethau ond, o ran tracio’r pethau rydyn ni wedi eu gwneud a phwy sydd wedi eu gwneud nhw — mae’n rhaid i ni weithio ar [hynny]. Roedd gennym ffurflenni gwerthuso ar ôl y tripiau, ond heblaw am wybod eu bod nhw yno gyda’r gofrestr mae’n anodd gweld yr effaith. Gwnaethom arolwg ddiwedd yr wythnos a

chawsom bethau o hynny. Mae'n weddol anodd dangos tystiolaeth a [sicrhau bod] 91% wedi gwneud y pethau hynny. Mae'n anodd dangos y dystiolaeth, hyd yn oed os ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi gwneud. Mae'n llawer o waith.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.44 Mynegwyd pryder mewn rhai achosion am y gorgyffwrdd rhwng yr angen i ddangos tystiolaeth ar gyfer Marc Gyrfa Cymru a'r archwiliadau Meincnod. Soniodd y rhai a gyfwelwyd am rywfaint o ddyblygiad a dryswch ac roedd rhai'n awgrymu bod gan y ddau lawer (efallai gormod) yn gyffredin, gan awgrymu effaith bosibl ar y rhanddeiliaid ehangach.

4.45 Roedd yr ymatebion yn yr arolwg yn awgrymu hefyd bod staff yn teimlo bod y broses fonitro'n effeithiol.[6] Dim ond un ymateb a nododd nad oedden nhw'n meddwl bod y broses yn effeithiol, tra bo 69% yn teimlo bod y broses yn effeithiol i ryw raddau. Cafwyd 19 o ymatebion oedd yn awgrymu nad oedden nhw'n ymwybodol o'r prosesau monitro oedd ar waith ac roedd pymtheg o'r rhain wedi dod gan unigolion a ddywedodd nad oedden nhw wedi cymryd rhan mewn unrhyw agwedd o ddarpariaeth y rhaglen.

**Ffigwr 4.3: Effeithiolrwydd y broses fonitro**




N=65

[6] Mae'n debyg y bydd gan y term 'monitro effeithiol' ddau ystyr. I Arweinwyr Gyrfaoedd, byddai monitro effeithiol yn cyfeirio at ddata monitro sy'n galluogi i ddarpariaeth y meincnodau gael eu goruchwylio. I athrawon nad ydynt yn ymgysylltu cymaint (neu efallai heb ymgysylltu o gwbl) gyda darpariaeth meincnodau Gatsby, gallai 'monitro effeithiol' gynrychioli dull o fapio'r ddarpariaeth addysg gyrfaoedd o fewn yr ysgol.

4.46 Mae'r data'n awgrymu bod y staff sy'n gyfrifol am gasglu data monitro'n cael y broses yn ddefnyddiol ac yn gallu ymdopi'n iawn â hi. Yn ogystal, roedd rhywfaint o awgrym bod y broses fonitro a'r data a gynhyrchwyd yn cefnogi ymdrechion ehangach o fewn yr ysgol i fapio darpariaeth gyrfaoedd. Mae'n ymddangos, o leiaf mewn rhai achosion, bod yn broses yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i gefnogi darpariaeth a mapio cynnydd. Mynegwyd pryderon fodd bynnag, mewn perthynas â dangos tystiolaeth o effaith y meincnodau, oedd yn awgrymu y byddai angen data 'dyfnach', y tu hwnt i nodi gweithgaredd ac allbwn, e.e. presenoldeb mewn digwyddiadau.

**Effaith**

4.47 Awgrymodd y mwyafrif o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd bod y Peilot Meincnodi Gatsby wedi cael effaith bositif, neu'n debygol o gael effaith bositif, yn eu hysgol/coleg, ac y bydd dysgwyr yn elwa o ganlyniad i hynny. Roedden nhw'n awgrymu bod hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith fod meincnodau wedi darparu sylfaen o wybodaeth, wedi ffurfioli'r gofynion ar gyfer dysgu gyrfaol ac wedi sicrhau bod mwy o gyfle i'r dysgwyr ddysgu am lwybrau gyrfaoedd.

4.48 Ystyriwyd hefyd bod y meincnodau wedi annog dull mwy strwythuredig a strategol o ddatblygu darpariaeth gyrfaoedd. Yn ogystal, y farn gyffredin oedd bod y broses fonitro ac archwilio'n ychwanegu gwerth i reolaeth yr ysgol. Mewn darpariaeth fapio, gallai Arweinwyr Gyrfaoedd a'r Tîm Uwch-Arweinwyr ddeall y ddarpariaeth yn well a chanfod bylchau ynddi a phennu'n hyderus pa ddatblygiadau pellach oedd eu hangen.

4.49 Mae'r buddion hyn, yn eu tro, wedi galluogi i sefydliadau addysgol deilwra eu darpariaeth i'r dysgwyr, ac i ddysgwyr, yn eu tro, elwa o addysg gyrfaoedd fwy priodol.

> 'Credaf fod y Meincnodau'n rhoi eglurder a'r rheswm am lawer o hynny yw'r ffaith fod y dysgwyr yn dod i fwy o gysylltiad â'r byd gyrfaoedd, a bydd hyn yn gwella'r broses i'r dysgwyr. Y blociau adeiladu mewn gwirionedd sy'n gwneud yr holl elfennau'n ystyrlon. Hefyd, oherwydd y dulliau archwilio, mae'n rhoi'r cyfle i ni drefnu'r ffordd y byddwn yn mynd ati i adfyfyrio.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd , 2020)

4.50 Ymhob un o’r achosion bron iawn, fodd bynnag, awgrymodd ymatebwyr y cyfweliad bod angen mwy o amser i weithredu’r meincnodau’n llawn ac i’r effaith ddechrau dangos. Cafodd eu sylwadau eu hadleisio yn ymatebion yr arolwg, fel y maent wedi eu hamlinellu yn Nhablau 4.2 – 4.4. isod.

4.51 Ymhellach, rhaid nodi bod yr ymatebion i’r cyfweliadau ac i’r arolwg yn enghreifftiau o arsylwadau athrawon a staff, ac wrth ystyried yr effaith yn y dyfodol, roedd yr ymatebion yn mynegi tybiaethau a dyfaliadau gan yr aelodau hynny o staff ar sail eu profiadau. Er bod hon yn ffynhonnell ddata werthfawr ynddi ei hun, byddai ffynonellau data cefnogol eraill yn cynyddu’r hyder yn y canfyddiadau hyn.

4.52 O ystyried yr effaith ar y dysgwyr yn benodol, awgrymodd nifer o bobl a gyfwelwyd bod y Peilot wedi cynyddu ymwybyddiaeth y dysgwyr am y llwybrau gyrfaoedd sydd ar gael iddynt. Roedd hi’n gyffredin, fodd bynnag, i’r rhai a gyfwelwyd awgrymu ei bod hi’n rhy gynnar o hyd i adnabod unrhyw effaith bendant y mae hyn wedi ei chael, neu y gallai ei chael. Ond, am fod dysgwyr yn derbyn mwy o wybodaeth na chynt erbyn hyn, credid bod ganddyn nhw fwy o ffocws o ran eu meddyliau a’u dyheadau, a’u bod yn galw am fwy o arweiniad gyrfaoedd o ganlyniad i hynny.

> ‘Mae mwy o bobl yn gofyn am arweiniad gyrfaoedd, gan awgrymu bod mwy o ddisgyblion yn ystyried beth fydd eu llwybrau gyrfaol yn y dyfodol. Mae trefnu i bobl sy’n arbenigwyr ddod i mewn yn codi proffil yr hyn sydd allan yno. Mae’n sicrhau fod pob disgybl yn derbyn yr arweiniad y maent ei eisiau ac yn fwy gwybodus am y gwahanol lwybrau sydd ar gael iddynt,’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.53 Awgrymodd oddeutu hanner y rhai a gyfwelwyd hefyd bod ymwybyddiaeth y dysgwyr o gyrchnodau a llwybrau gyrfaoedd wedi gwella drwy gyfrwng y Peilot o ganlyniad i’r ffaith fod y ddarpariaeth gyrfaoedd yn fwy ffurfiol, yn fwy cyson ac yn fwy cynhwysfawr oherwydd ehangder y meincnodau.

> ‘Dw i’n meddwl bod ganddo agwedd gadarnhaol. Cyn gwneud pethau unigol mewn ysgolion, rydyn ni’n cysylltu’n agos â Gyrfa Cymru. Gan fod gennym feincnodau ffurfiol erbyn hyn, gallwn sicrhau ein bod yn ateb y gofynion i gyd. Cynt, roeddem yn cynnig y pethau roeddem ni eu heisiau a’r pethau y gwyddom y gallent eu cynnig. Rydyn ni’n llawer mwy trwyadl erbyn hyn. Mae gan y [dysgwyr] lefelau tebyg o uchelgeisiau yn awr.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.54 Roedd ymatebion yr arolwg yn atsain awgrymiadau tebyg, gan nodi hefyd mewn rhai achosion bod y dysgwyr yn fwy ymwybodol o lwybrau ac opsiynau addysgol neu gymwysterau eraill. Yn ogystal, nododd rhai o'r ymatebion bod dysgwyr yn gwneud cysylltiadau amlwg rhwng dyheadau gyrfaol a'u llwybrau addysgol neu gymwysterau eu hunain, gan awgrymu eu bod yn debygol o wneud penderfyniadau gwell. Yn ogystal, roedd awgrym bod y cynnydd mewn cysylltiad â llwybrau gyrfaoedd a gwybodaeth amdanynt wedi sbarduno ymgysylltiad a dadl fwy agored gyda materion gyrfaol mewn rhai ysgolion. Roedd yr honiad olaf yma'n atsain o'r ymatebion mewn cyfweliadau oedd yn cyfeirio at y cynnydd mewn galw am ragor o arweiniad gyrfaoedd.

> 'Dros y flwyddyn ddiwethaf yma yn fras, mae disgyblion wedi gwneud llawer mwy o ryngweithio gydag arbenigwyr a chyflogwyr o lawer o lwybrau gyrfaol. Maen nhw wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai, drwy ddigwyddiadau fel wythnos gyrfaoedd, ac wedi cael gweithdai STEM. Gwahoddwyd rhieni i sgyrsiau am y farchnad lafur ac mae disgyblion wedi cael ffug gyfweliadau. Mae athrawon wedi teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â siarad am y ffordd y mae eu pynciau'n cysylltu â llwybrau gyrfaoedd y dyfodol ac mae disgyblion wedi bod yn fwy parod i drafod eu dyheadau gydag athrawon.' (Ymateb i'r Arolwg, 2020)

4.55 Gofynnodd yr arolwg ar-lein i ymatebwyr sgorio effaith y meincnodau (o 1-10, gyda 10 yn cynrychioli'r mwyaf sylweddol) ar ymwybyddiaeth y disgyblion o lwybrau gyrfaoedd. Mae'r data wedi ei amlinellu yn Nhabl 4.2 isod. Mae'r sgôr cymedrig o 6 am yr effaith ar hyn o bryd yn awgrymu bod y meincnodau'n cael rhywfaint o effaith yn barod ar farn ymatebwyr. Ond, mae'r sgôr yn codi i 7.44 pan ofynnir iddynt ystyried yr effaith y bydd y meincnodau'n ei chael yn y dyfodol.

**Tabl 4.2: Yr effaith ar ymwybyddiaeth disgyblion o lwybrau gyrfaoedd**

| | | **Isafswm** | **Uchafswm** | **Cymedr** | **Gwyriad Safonol** | **Amrywiant** | **Cyfrifiad** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr effaith ar ymwybyddiaeth disgyblion o lwybrau gyrfaoedd? | Yr effaith gyfredol | 0 | 10 | 6 | 2.13 | 4.55 | 62 |
| | Effaith yn y Dyfodol | 1 | 10 | 7.44 | 1.76 | 3.08 | 55 |

4.56 Roedd y mwyafrif o’r rhai a gyfwelwyd yn awgrymu ei bod hi’n rhy gynnar i ganfod beth yw’r effaith ar gyflawniad dysgwyr. Yn ogystal, roedd ceisio canfod cysylltiadau achosol rhwng y meincnodau a chyflawniad y dysgwyr yn debygol o fod yn arbennig o heriol.

4.57 Roedd Arweinwyr Gyrfaoedd, fel aelodau staff sydd â llai o gysylltiad a llai o amser addysgu na’r athrawon, yn annhebygol o allu rhoi sylwadau mor hyderus am yr effaith ar gyflawniad dysgwyr.

4.58 Roedd yr athrawon a ymatebodd i’r arolwg, fodd bynnag, yn awgrymu sut y gallai’r meincnodau effeithio ar ddysgwyr. Roedd yr effeithiau a ragwelwyd yn unfrydol bositif ac yn ymwneud i raddau mawr ag agweddau, cymhelliant ac uchelgeisiau dysgwyr a fyddai wedyn yn arwain at well ymgysylltiad a chyflawniad. Ni ddisgwylid i’r meincnodau wella cyflawniad yn uniongyrchol, felly, ond yn hytrach disgwylid iddynt wella ymgysylltiad a fyddai, yn ei dro, yn arwain at welliannau mewn cyflawniad. Mae detholiad o ymatebion wedi eu nodi yma, ac mae’r cyflenwad llawn o ymatebion i’w cael yn Atodiad A.

> ‘Maen nhw wedi cymell rhai disgyblion i wneud mwy o ymdrech.’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

> ‘Bydd yn rhoi’r ffocws i’r myfyrwyr allu sicrhau’r rolau gwaith y maen nhw eu hangen. Bydd ganddynt yr wybodaeth i weithio tuag at y gyrfaoedd hyn. Er enghraifft, i fod yn athrawon yng Nghymru, mae angen i fyfyrwyr gael o leiaf B mewn Saesneg a Mathemateg. Os bydd myfyrwyr eisiau bod yn athrawon, bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu iddyn nhw weithio tuag at gyflawni’r targedau hyn.’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

> ‘Bydd disgyblion yn gwybod pa gymwysterau sydd eu hangen i fynd ar ôl eu gyrfa neu faes o ddiddordeb ac yn ymdrechu i gyflawni’r graddau hyn.’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

> ‘Bydd disgyblion yn cael eu cymell, gobeithio, oherwydd bydd ganddynt nod a llwybr clir.’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

> ‘O fewn fy maes astudio i, efallai y gallai cynyddu ffocws ar lwybrau greu’r angen ynddynt i gyflawni’n well yn y pwnc er mwyn iddynt allu cael swyddi yn eu dewis yrfaoedd. Gallai hyn wella cyrhaeddiad.’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

4.59 Er bod y staff addysgu'n siarad yn hyderus am yr effaith y bydd y meincnodau'n ei chael, mae'n debyg y bydd hi'n sialens i gynhyrchu tystiolaeth gefnogol naill ai o'r cynnydd mewn ymgysylltiad a chymhelliant neu o'r effaith ddilynol ar gyflawniad, yn enwedig ar lefel yr unigolyn. Efallai mai cymharu carfanau a thystiolaeth gan athrawon fydd y dulliau mwyaf cadarn o ddangos tystiolaeth o'r effeithiau hyn.

4.60 Hefyd, gofynnodd yr arolwg ar-lein i'r ymatebwyr roi sgôr (o 1-10 lle mae 10 yn cynrychioli'r mwyaf sylweddol) i effaith y meincnodau ar gyrhaeddiad y disgyblion. Mae'r data wedi ei amlinellu yn Nhabl 4.3 isod. Mae'r sgôr cymedrig o 5.13 ar gyfer yr effaith gyfredol yn awgrymu bod y meincnodau'n cael rhywfaint o effaith ym marn yr ymatebwyr. Ond, mae'r sgôr hwn yn codi i 6.41 pan ofynnir iddynt ystyried yr effaith y bydd y meincnodau'n ei chael yn y dyfodol. Eto, mae hyn yn awgrymu y bydd yr effaith yn fwy sylweddol mewn amser.

**Tabl 4.3: Yr effaith ar gyflawniad disgyblion**

| | | Isafswm | Uchafswm | Cymedr | Gwyriad Safonol | Amrywiant | Cyfrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr effaith ar gyflawniad disgyblion? | Effaith Gyfredol | 1 | 10 | 5.13 | 2.12 | 4.47 | 61 |
| | Effaith yn y Dyfodol | 0 | 10 | 6.41 | 2.25 | 5.07 | 46 |

4.61 Roedd yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn teimlo y byddai'r effaith i'w gweld yn y pen draw ar gyrchnodau disgyblion. Roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai mwy o ymwybyddiaeth o lwybrau (ochr yn ochr â dod yn fwy brwdfrydig, cael mwy o ffocws ac ymgysylltu fwy yn yr ysgol) yn arwain at sefyllfa lle byddai dysgwyr yn addasu eu dewisiadau ac, yn y pen draw, byddai hyn yn dylanwadu ar eu cyrchnodau. Teimlwyd, fodd bynnag, y byddai'n anodd mesur yr effaith ar gyrchnodau.


4.62 Er hynny, pan ofynnwyd iddynt sgorio effaith y meincnodau ar gyrchnodau disgyblion (gan sgorio o 1-10, gyda 10 yn golygu'r mwyaf sylweddol), roedd yr atebion i'r arolwg ar-lein yn awgrymu bod y Meincnodau wedi cael rhywfaint o effaith yn barod. Mae'r sgôr cymedrig o 5.8 yn awgrymu hynny, fel y nodir yn Nhabl 4.4. isod. Ond, mae'r sgôr hwn yn codi i 7.48 wrth geisio barnu pa effaith y bydd y meincnodau'n ei chael yn y dyfodol.

**Tabl 4.4: Yr effaith ar gyrchnodau disgyblion**

| | | Isafswm | Uchafswm | Cymedr | Gwyriad Safonol | Amrywiant | Cyfrifiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr effaith ar gyrchnodau disgyblion? | Effaith Gyfredol | 2 | 10 | 5.8 | 2.07 | 4.29 | 61 |
| | Effaith yn y Dyfodol | 1 | 10 | 7.48 | 1.97 | 3.87 | 52 |

4.63 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yr arolwg yn arbennig o bositif yn eu barn o'r effaith y mae'r meincnodau unigol wedi ei chael. Cyflwynir y data yn Ffigwr 4.4. isod. Er bod oddeutu pumed ran o'r ymatebwyr wedi nodi'r ateb 'ddim yn gwybod' o ran pa effaith a gafwyd, a hynny mewn perthynas â phob meincnod — roedd mwyafrif llethol yr unigolion hyn heb gyfranogi yn y gwaith o ddarparu'r meincnodau — dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod pob meincnod wedi sicrhau effaith eithriadol o bositif neu gweddol bositif. Yn naturiol, mae'r sylwadau ansoddol sydd wedi eu cyflwyno uchod yn cynnig mwy o fanylion am y mathau o effeithiau y maen nhw wedi eu sicrhau.


**Ffigwr 4.4: Pa effaith mae'r meincnodau unigol a gweithgareddau perthnasol wedi eu cael yn barod ar y ddarpariaeth gyrfaoedd o fewn yr ysgol?**




N=50

4.64 Cyflwynodd yr arolwg ddatganiadau i'r ymatebwyr hefyd am effaith gyffredinol y Peilot. Mae'r data a gyflwynir yn Ffigwr 4.5 isod yn awgrymu bod yr ymatebwyr hynny'n arbennig o ffafriol ynghylch yr effaith y mae'r meincnodau'n ei chael ar addysg gyrfaoedd.

**Ffigwr 4.5: Mae Meincnodau Gatsby yn cefnogi darpariaeth dysgu gyrfaoedd effeithiol**




N=53

4.65 Roedd llawer o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn optimistaidd am yr effaith y byddai'r meincnodau'n debygol o'i chael yn y dyfodol. Yn ogystal, credwyd bod nifer o'r effeithiau y soniwyd amdanynt eisoes yn debygol o barhau a chynyddu yn y dyfodol wrth i ysgolion a staff ddod yn gyfarwydd â'r meincnodau a gyda'r dulliau o'u darparu nhw'n fwy effeithiol a phriodol i amrywiaeth o ddysgwyr.

4.66 Roedd llawer o'r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn awgrymu hefyd bod y proffil uwch a roddwyd i addysg gyrfaoedd a'r dull cyson a ddatblygwyd drwy'r meincnodau Gatsby dros amser ac i mewn i'r dyfodol yn galluogi i ddysgwyr gael ymgysylltiad a chysylltiadau gyrfaol mwy ystyrlon, gan arwain mewn rhai achosion at fwy o gymhelliant a rhagor o effeithiau positif ar gyflawniad y dysgwr.

> ‘Rwy’n gobeithio mai’r effaith fyddai i gysylltiad y dysgwyr fod yn fwy ystyrlon ac y byddem wedi grymuso disgyblion yng Nghymru i wneud yr hyn y maen nhw eisiau ei wneud ac i deimlo’n ddigon da i’w wneud e.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd , 2020)

> ‘Credaf y gallent fod yn enfawr, i fod yn onest. Os gallwn gael ymrwymiad go iawn gan athrawon a gwarcheidwaid a gadael i ddisgyblion gwneud cysylltiadau gwell, bydd yr effaith yn enfawr. O ran cynyddu cymhelliant a chyflawniad, bydd yn enfawr.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

**Yr effaith ehangach a gwerth ychwanegol**

4.67 Roedd rhai Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn awgrymu y gallai’r gweithgareddau a ddarperir o ganlyniad i’r Peilot Gatsby oresgyn yr heriau a greir gan lwybrau gyrfaoedd sy’n stereoteipio’r rhywiau. Ond, byddai’r rhain yn ddibynnol ar weithgareddau penodol a ddatblygir gan yr ysgolion/canolfannau. Nododd yr Arweinwyr Gyrfaoedd, er enghraifft, ei bod hi’n bosibl, drwy gynnig sgyrsiau gan beirianwyr sy’n fenywod neu gyflwyno modelau rôl gwrywaidd, i addasu addysg gyrfaoedd fel ei bod yn goresgyn rhwystrau traddodiadol sydd wedi eu seilio ar y rhywiau.

> ‘Ni allwn wybod ar hyn o bryd, ond rwy’n credu pan fyddwn yn cael merch i mewn sy’n beiriannydd er enghraifft, bydd [merched] yn gofyn i ni: “Sut alla i wneud hynny?” Gobeithio y bydd hyn yn helpu i godi’r mater hwnnw — dydw i ond yn gallu gweld hyn fel rhywbeth positif.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

> ‘Credaf ei fod yn angenrheidiol iawn mewn ysgolion. Mae addysg gyrfaoedd wedi bod yn yr ail reng ers llawer iawn gormod o amser. Gallai’r wybodaeth hon newid barn person ifanc am swyddi ac am y byd. Mae’r stereoteipiau o ran y rhywiau yn gryf iawn o hyd, yn enwedig yng Nghymoedd De Cymru. Credaf y bydd project Gatsby yn helpu pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau hyn.’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

4.68 Mae’n anodd canfod cysylltiad achosol uniongyrchol rhwng y meincnodau a datblygu rhaglenni addysg gyrfaoedd sy’n fwy sensitif i’r rhywiau. Ond, credir bod meincnodau 5 a 6, yn ogystal â’r gofyniad i gysylltu dysgwyr â gyrfaoedd ac unigolion, yn cyflwyno cyfleoedd i Arweinwyr Gyrfaoedd deilwra a datblygu gweithgareddau yn benodol i’r unigolyn. Felly mae’r meincnodau, drwy bwysleisio cysylltiad â gyrfaoedd a phrofiad o weithfannau, wedi darparu cyfleoedd i herio’r rhwystrau hynny sy’n cysylltu llwybrau gyrfaol penodol gydag un o’r rhywiau yn arbennig.

4.69 Roedd yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd yn awgrymu fel arfer bod ganddynt brofiad o ymgysylltu â sefydliadau a busnesau allanol cyn y Peilot Meincnodi Gatsby. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd wedi nodi hefyd bod eu cyfranogaeth gyda'r Peilot wedi datblygu ac wedi dwysáu'r ymgysylltiad allanol hwn (yn ogystal â'i wneud yn ddarpariaeth brif ffrwd).

> 'Roedd gennym bocedi o arferion da drwy'r ysgol gyfan. Mae wedi cynyddu ein gwaith partneriaeth, nid gyda busnesau yn unig ond gyda Gyrfa Cymru a Rhondda Cynon Taf hefyd. (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.70 Roedd oddeutu hanner y rhai a gyfwelwyd wedi tynnu sylw hefyd at werth ymgysylltiad a phrofiadau allanol. Roedd yr Arweinwyr Gyrfaoedd hyn yn awgrymu bod mwy o ymgysylltiad allanol, sydd hefyd yn fwy cyson, wedi darparu cyfleoedd mwy ystyrlon i ddysgwyr, sef profiad gwaith ac ymgysylltiad uniongyrchol gyda chyflogwyr.

> 'Mae'n sicr yn priodi'r ysgol gyda'r byd y tu hwnt i gatiau'r ysgol. [Nid yw'n ddelfrydol] i bawb, ond po fwyaf o gysylltiadau ystyrlon a gânt gyda pherchnogion busnes a rhanddeiliaid – y mwy o gyfleoedd a roddwn iddynt, yn fy marn i, i integreiddio a chael profiad o gyfweliadau am swyddi. Yn lle mynd drwy Gyrfa Cymru, rydym wedi datblygu'r bobl hynny yn ein ffeiriau gyrfaoedd ac rwy'n teimlo bod hyn wedi gwella'r cyfleoedd dysgu a roddir i'r disgyblion.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.71 Yn fwy cyffredinol, roedd ystod o aelodau staff, ond yn arbennig y rheiny mewn safleoedd arweinyddiaeth uwch, wedi tynnu sylw at fanteision Gatsby mewn perthynas â chodi proffil addysg gyrfaoedd. Er ei bod hi'n anoddach canfod y rhesymau am hynny, pan wthiwyd rhai o'r rheiny a gyfwelwyd i roi ateb, awgrymwyd bod cyflawni'r meincnodau a'r ffordd yr oedd eu gweithrediad a'u dulliau monitro'n denu ystod o aelodau staff i mewn i'r broses, wedi helpu i godi ymwybyddiaeth a phroffil addysg gyrfaoedd.

> 'Bydd meincnodau Gatsby yn rhoi statws i addysg gyrfaoedd mewn ysgolion – ni ellir anwybyddu eu pwysigrwydd. Er enghraifft, yn fy addysg innau, ni chefais unrhyw arweiniad gyrfaoedd. Yn fy marn i, pe bawn i weld cael hynny, byddwn wedi cael llawer mwy o opsiynau.' (Ymateb i Arolwg, 2020)

> ‘Mae’r meincnodau wedi fy ngalluogi i fframio ac ymwreiddio’r addysg gyrfaoedd newydd sydd wedi ei llunio ar gyfer yr ysgol. Mae wedi gadael i staff ganfod ffyrdd o gyfranogi yn addysg gyrfaoedd y disgyblion drwy’r prif gyfnodau i gyd. Teimlaf fod disgyblion yn gallu gweld mwy o werth yn y sgiliau y maen nhw’n eu mireinio yn yr ysgol, beth bynnag fo’r pwnc,’ (Ymateb i’r Arolwg, 2020)

4.72 Sylw pellach ac un gweddol gyffredin ymysg rhai o’r bobl a gyfwelwyd a’r ymatebwyr i’r arolwg oedd bod y meincnodau, a rôl yr Arweinydd Gyrfaoedd yn arbennig, wedi creu mwy o atebolrwydd am ddarpariaeth addysg gyrfaoedd mewn ysgolion.

4.73 Yn olaf, ac mewn perthynas â phwyntiau blaenorol i ryw raddau, mae rhai pobl yn credu bod y meincnodau wedi rhoi syniad mwy eglur o’r ‘da y dylid anelu amdano’. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn gallu cynyddu hyder staff yr ysgol yn eu hymdrechion eu hunain i ddarparu addysg gyrfaoedd.

> ‘Mae’r meincnodau Gatsby yn rhoi fframwaith clir ar gyfer yr addysg gyrfaoedd ‘da’ i anelu amdani. Maen nhw hefyd wedi cynyddu’r proffil o fewn ysgolion i’r graddau nad yw addysg gyrfaoedd bellach yn rhywbeth ail reng, ac mae wedi dechrau ymwreiddio o fewn addysgu dyddiol y gwersi ar draws yr holl bynciau.’ (Ymatebwr i’r Arolwg, 2020)


4.74 Roedd rhai pobl a gyfwelwyd yn awgrymu hyn hefyd: os byddai’r Meincnodau Gatsby’n parhau i gael eu cyflwyno, byddai’r meincnodau ffurfiol yn parhau i ddarparu mesurau a thargedau clir a chyson i ysgolion a cholegau, gan dynnu sylw’r staff at y lefel y dylai eu dysgu gyrfaoedd fod arni. Credid bod ffocws uwch ar addysg gyrfaoedd yn ffactor allweddol pellach a allai sbarduno ymgysylltiad gyda’r meincnodau a’u gwneud yn effeithiol.

> ‘Ydy yn sicr, mae hwn yn dal i fod yn Beilot. Os bydd yn tyfu’n fwy ac yn cael ei gyflwyno, yn enwedig os bydd [y meincnodau] yn dod yn rhan o’r arolwg. Mae’n anodd iawn eu cyflawni nhw i gyd. Ond hyd yn oed os ydych yn taro rhai ohonynt, rydych yn dal i wthio mwy o weithgareddau gyrfaoedd nag yr oeddech chi. Am eich bod yn gallu edrych ar y meincnodau hyn, byddwch yn gwybod pa bethau y bydd angen ichi eu rhoi yn eu lle.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.75 Bu’r arolwg hefyd yn archwilio effaith bosibl y rhaglen yn y dyfodol, gan dderbyn ymatebion positif gan y mwyafrif o ymatebwyr, ochr yn ochr â lleiafswm nodedig oedd ddim yn gwybod. Mae Ffigyrau 4.6–4.9 isod yn dangos bod oddeutu tri chwarter yr ymatebwyr yn credu y byddai’r meincnodau’n cefnogi darpariaeth dysgu gyrfaoedd


effeithiol, yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud yn fawr o'u potensial, ac y byddent yn ategu addysg gyrfaoedd yn dilyn cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru. Ymhellach, roedd oddeutu dwy ran o dair yn credu bod y meincnodau'n mynd i ychwanegu gwerth i CWW/CWRE. Yn y cyfamser, dywedodd oddeutu pumed ran o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, ac roedd y mwyafrif o'r atebion hyn yn dod gan ymatebwyr oedd hefyd yn nodi nad oeddent wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r rhaglen Gatsby. Dim ond un unigolyn oedd wedi ymateb yn negyddol i'r datganiadau, ond ni ddarparodd unrhyw fanylion yn y cwestiynau atodol.

**Ffigwr 4.6: Effaith yn y dyfodol (1)**





N=54

**Ffigwr 4.7: Effaith yn y dyfodol (2)**





N=54

**Ffigwr 4.8: Effaith yn y dyfodol (3)**




N=54

**Ffigwr 4.9: Effaith yn y dyfodol (4)**




N=54

4.76 Mae'n rhaid cofio cyfyngiadau sampl hunan-ddewisedig, a chofio nad yw'r arolwg yn cynrychioli gweithluoedd yr ysgolion a arolygwyd na phoblogaeth ehangach o ysgolion/athrawon. Er hynny, mae tuedd gref i athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r meincnodau Gatsby gredu bod y meincnodau Gatsby yn mynd i effeithio'n gadarnhaol ar ystod o agweddau addysg gyrfaoedd yn y dyfodol.

### Heriau

4.77 Pan ofynnwyd iddynt ystyried yr heriau sy'n codi wrth weithredu a sefydlu'r meincnodau Gatsby, yr awgrym fwyaf cyffredin a gafwyd gan yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd — oddeutu hanner y rheiny a atebodd y cwestiwn — oedd mai'r her fwyaf yr oeddent yn ei hwynebu oedd her sefydlu'r meincnodau mewn ffordd integredig a thrwy'r 'ysgol gyfan' yn ogystal â'r (diffyg) adnoddau sydd ar gael i wneud hynny. Roedden nhw'n awgrymu mai'r rheswm am hyn oedd bod yr ymrwymiad gan athrawon a rhieni'n amrywiol ac na chafwyd llawer o amser hyd hynny i ddatblygu dull integredig. Ystyriwyd bod yr her o ran adnoddau'n waeth mewn sefydliadau addysgol sydd â nifer fawr o ddysgwyr (gwelwch 4.69 isod am sicrhau cysondeb profiad).

4.78 Awgrymodd oddeutu hanner y rhai a gyfwelwyd hefyd bod un her allweddol yn ymwneud â sicrhau cysondeb wrth ddarparu'r meincnodau o fewn ac ar draws ysgolion. Yn ogystal, codwyd pryderon mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach ynglŷn â gweithrediad y meincnodau, a chodwyd cwestiynau allweddol am agweddau penodol megis, a oes modd cymharu'r arolygon ar draws ysgolion. Mewn geiriau eraill, a yw agweddau 'gwyrdd' ar archwiliad un ysgol yr un fath â'r agweddau 'gwyrdd' mewn ysgol arall? Heb wneud ymchwil manylach i ysgolion unigol, doedd hi ddim yn bosibl canfod hyn, yn enwedig o ystyried y diffyg mynediad i ysgolion yn ystod y pandemig COVID-19. Yn y pen draw, arweiniodd y pryderon at y casgliad bod y rheolwr rhaglen a/neu'r archwiliwr yn rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyson.

> 'Rwy'n synhwyro bod yr archwiliad yn cael ei ddehongli'n wahanol mewn gwahanol ysgolion. Mae un ysgol yn cael ei disgrifio'n gyson fel un sy'n gwneud yn dda iawn, ond yna mae un arall sydd byth yn cael ei chrybwyll ac eto mae ei harchwiliad wedi ei farcio'n wyrdd o'r dechrau hyd y diwedd. Yn yr ysgolion yn Lloegr, ychydig iawn iawn sy'n derbyn lliw gwyrdd drwyddo draw. Credaf fod cysondeb, ac i ba raddau maen nhw'n darparu tystiolaeth yn erbyn y meincnodau, yn dipyn o farc cwestiwn i mi.' (Cyfweliad â Rhanddeiliad, 2020).

4.79 Mewn rhai achosion, roedd y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu hefyd eu bod wedi cael anawsterau o ran sicrhau cysondeb profiad i'r dysgwyr. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol mewn sefyllfa lle disgwylir i niferoedd mawr o ddysgwyr dderbyn profiad penodol er mwyn bodloni meincnod. Ar hyn o bryd does dim ffordd o sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn profiadau tebyg heblaw eu bod oll yn cymryd rhan yn yr un

gweithgaredd yn union, ac os felly, mae teilwra profiadau i'r unigolyn yn gallu bod yn anodd iawn. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol mewn ysgolion mwy. Am fod y meincnodau'n gofyn bod 90+ y cant o'r dysgwyr yn cael profiad o weithgareddau arbennig, mae'r niferoedd gwirioneddol yn peri her arbennig i ysgolion o'r fath. Roedd rhai wedi awgrymu hyd yn oed bod 'taro'r targed' yn gallu cael ei flaenoriaethu uwchlaw ansawdd a manylder y profiad ei hun.

4.80 Un her gyffredin oedd yn wynebu Arweinwyr Gyrfaoedd oedd eu gallu i ddangos a nodi tystiolaeth o effaith, mater a godwyd i raddau mawr pan gawsent eu gwthio i wneud hynny. Roedd Arweinwyr Gyrfaoedd yn credu y byddai'n anodd sefydlu a dangos tystiolaeth o gysylltiadau achosol uniongyrchol rhwng yr ymyriadau mewn perthynas â'r meincnodau a'r agweddau, cyrchnodau neu gyflawniad sy'n newid, yn arbennig mewn perthynas â dysgwyr unigol.

4.81 Awgrymodd dau o'r rhai a gyfwelwyd y gallai ffactorau allanol nad oes ganddynt lawer o reolaeth drostynt fod yn heriol hefyd. Fel y gellid disgwyl, awgrymodd un o'r rhai a gyfwelwyd bod y pandemig COVID-19 cyfredol yn her i'w sefydliad addysg yn gyffredinol, tra bo un arall wedi awgrymu nad yw'r mathau o swyddi y byddai eu dysgwyr iau yn mynd iddynt yn bodoli eto.

4.82 Her arall a godwyd gan ymatebwyr i'r cyfweliad ac i'r arolwg, yn ogystal â rhanddeiliaid, oedd yr angen i sicrhau bod staff medrus a staff wedi eu hyfforddi mewn safleoedd allweddol. Daeth pwysigrwydd safle'r Arweinydd Gyrfaoedd yn arbennig i'r amlwg fel rôl hanfodol i yrru datblygiad a sefydliad y meincnodau. Yn ogystal, roedd y gefnogaeth ganolog a dderbyniwyd gan y rheolwr rhaglen yn hollbwysig, ac arweiniodd at awgrymiadau gan lawer o ymatebwyr bod rhaid i'r rôl gael ei llenwi (a'i bod felly ar hyn o bryd) gan unigolyn neu dîm medrus a phrofiadol. Pan ofynnwyd iddynt ystyried sefyllfa lle'r oedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n genedlaethol, mynegwyd barnau gwahanol gan randdeiliaid mewn perthynas â'r math o drefniant neu strwythur oedd yn ofynnol i gefnogi ysgolion. Fodd bynnag byddai profiadau a dysgu'r rheolwr rhaglen cyfredol yn werthfawr o ran hysbysu penderfyniadau'r dyfodol.

> 'Er mwyn i'r meincnodau fod yn effeithiol, mae'n hanfodol penodi'r aelodau staff cywir i'r swyddi allweddol [h.y. Arweinwyr Gyrfaoedd]. Yna mae angen rhoi'r amser i'r unigolion hyn sy'n ofynnol ar gyfer y rôl er mwyn ei gwneud yn effeithiol.' (Ymatebwr i'r Arolwg, 2020)

4.83 Nododd rhai o’r ymatebwyr hefyd bod y gwaith o gyflwyno a darparu’r meincnodau wedi creu’r angen am fuddsoddi amser ac ymdrech y staff yn barhaus. Roedd gwybodaeth y farchnad lafur yn agwedd benodol o’r meincnodau a fyddai, os cedwid y dull hwn yn gweithredu, yn gofyn diweddaru ac ymchwil parhaus.

> ‘Mae’r wybodaeth am y farchnad lafur yn newid drwy’r amser. Mae angen rhoi amser ac ymdrech i sicrhau’r wybodaeth ddiweddaraf i’r myfyrwyr drwy’r amser. Er enghraifft, bydd ymchwil ein tîm yn achosi i’r tîm ddarparu gwybodaeth wahanol ar ôl y pandemig presennol. Mae ymchwil yn allweddol i sicrhau’r wybodaeth orau bosib.’ (Ymatebwr i’r Arolwg 2020)

4.84 Yn olaf, roedd yr heriau eraill a nodwyd gan nifer is o ymatebwyr i’r arolwg neu’r rhai a gyfwelwyd yn cynnwys:

- Diffyg hyder mewn rhannu a defnyddio manylion personol wrth gydymffurfio â gofynion GDPR, yn arbennig mewn perthynas â rhannu cofnodion disgyblion ar gyfer Meincnod 2.
- Sut y gallai cynnwys ac ymgysylltu â rhieni am y meincnodau fod yn heriol.
- Canfod amser ar gyfer addysg gyrfaoedd o fewn amserlenni.
- Sicrhau bod adnoddau ar gael i ysgafnhau’r baich ar athrawon.

4.85 I ysgafnau’r heriau cyfredol, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd bod angen mwy o amser i sefydlu’r Peilot ac iddyn nhw ac aelodau eraill y staff ddod yn gyfarwydd â datblygu ymatebion. Dyma awgrymiadau eraill y tynnwyd sylw atynt gan leiafswm o’r bobl a gyfwelwyd:

- Mwy o ddarpariaeth adnoddau (o ran amser ac adnoddau ariannol ar gyfer darparu staff cyflenwi) i gefnogi’r meincnodau Gatsby
- Ffurfioli a safoni’r dulliau o gasglu tystiolaeth,
- Mwy o gefnogaeth i athrawon gael hyfforddiant a datblygu sgiliau Arweinwyr Gyrfaoedd, a
- Chymorth AAA penodol a fyddai’n alinio gyda’r meincnodau Gatsby.

**Addasrwydd ar gyfer cynnig gyrfaol ehangach**

4.86 Awgrymodd y mwyafrif o’r Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd bod y Peilot Meincnodi Gatsby wedi ffurfioli’r addysg gyrfaoedd yr oeddent yn ei chynnig cynt yn eu hysgol/coleg. Roedd y meincnodau nid yn unig wedi helpu i fapio’r ddarpariaeth a datblygu gwybodaeth am yr hyn roedd y sefydliad yn ei gynnig a’r hyn y gallent ei ddatblygu, ond roedd hefyd yn helpu i wahaniaethu rhwng cylch gwaith yr ysgol/coleg a chylch gwaith Gyrfa Cymru, gan alluogi i’r cyntaf ganolbwyntio ar ddatblygu ei darpariaeth heb y risg o orgyffwrdd gyda’r ail. Yn ogystal, nododd rhai bod y

meincnodau a’r eglurder cysylltiedig yn hwyluso gwell perthynas waith gyda Gyrfa Cymru.

> ‘Credaf ein bod yn ffodus i gael Gyrfa Cymru, ond gyda’r toriadau dydw i ddim yn meddwl bod pobl yn gwybod beth roedd y cynghorwyr yn ei wneud yn yr ysgolion. Nid eu bai nhw yw hyn. Meddwl ydw i fod Gatsby wedi helpu i roi trefn ar atebolrwydd a chylchoedd gwaith. Doedd llawer o’r ysgolion ddim yn gwybod pwy oedd y cynnghorwyr gyrfaoedd yn eu hysgolion.’ (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.87 Yn gyffredinol, roedd y rhai a gyfwelwyd yn awgrymu bod y Peilot Meincnodau Gatsby yn ffitio’n dda ac yn cyflenwi’r fframwaith CWW yn ogystal â darpariaeth Gyrfa Cymru. Roedd y sylwadau hyn yn gysylltiedig â’r pwyntiau blaenorol oedd yn ymwneud â mapio’r ddarpariaeth mewn ysgolion a galluogi i Arweinwyr Gyrfaoedd a/neu’r Tîm Uwch-Arweinwyr ganfod meysydd i’w datblygu ymhellach, ynghyd â’r hyder ychwanegol o wybod sut i adnabod y ‘da i anelu amdano’. Awgrymodd oddeutu hanner yr Arweinwyr Gyrfaoedd a gyfwelwyd bod y Peilot wedi caniatáu i ysgolion gryfhau eu cynnig, gan eu galluogi i bob pwrpas i ddarparu mwy o’r hyn a ddisgwylir drwy gyfrwng y fframwaith.

4.88 Aeth rhai o’r bobl a gyfwelwyd ymhellach ac awgrymu naill ai nad oedd y fframwaith CWW yn llawer mwy na phwynt cyfeirio achlysurol neu bod yr addysg gyrfaoedd heb ei datblygu’n ddigonol yn eu hysgol nhw cyn y Peilot. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn yr achosion hyn yn awgrymu bod y gweithgareddau gyrfaoedd yn gyfyngedig a dim ond yn cael eu cynnig ar amseroedd penodol drwy gydol y flwyddyn, e.e. yn ystod diwrnod gyrfaoedd penodedig.

> ‘Nid oedd yn ategol, am nad oedd rhyw lawer yn digwydd. Rhoddodd [y Peilot] hwb iddo. Fel y dywedais, roedd rhai pethau bach ond dim byd mawr yn digwydd. Rhoddodd rywbeth i ni oedd y tu allan i’r bocs, oedd heb atalnod llawn. Doedden ni ddim yn siŵr sut i fynd ati i ymdrin â’r mater cyn hyn. Gallem integreiddio [addysg gyrfaoedd] i’r hyn roedden ni’n eu gwneud yn barod mewn sesiynau grŵp. Roedd yn gychwyniad newydd. (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.89 Awgrymodd rhai o’r lleill bod Meincnodau Gatsby yn cynnig mwy nag y gallai Gyrfa Cymru ei gynnig, oherwydd natur ymgysylltiad parhaus yr ysgolion gyda dysgwyr.

> ‘Dw i’n meddwl ei fod [yn addas i’r fframwaith a’r gwasanaethau addysg gyrfaoedd] go iawn. Roedd rhai pethau da’n digwydd ond mae hwn yn mynd ychydig bach pellach o ran darparu rhaglen fanwl o’r hyn sydd angen ei wneud. Y


peth diddorol gyda Gyrfa Cymru yw bod ganddyn nhw gynghorwyr ar gael i ysgolion ond dydyn nhw ddim yn gweithio yno, felly gall achosi ychydig bach o ddatgysylltiad. I wneud [y rhaglen] hon, mae angen i ysgolion gamu i fyny i'r lefel nesaf, yn enwedig mewn perthynas â dangos tystiolaeth o newidiadau,' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.90 Ymholodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd a oedd dyblygiad rhwng hwn a chyfrifoldebau Gyrfa Cymru, tra bo rhai o'r lleill wedi gofyn a allai darpariaeth Gyrfa Cymru gefnogi darpariaeth y meincnodau'n gryfach.

4.91 Roedd llawer o'r Arweinwyr Gyrfaoedd o'r farn hefyd bod archwiliad y Peilot Gatsby yn gorgyffwrdd gydag archwiliad Marc Gyrfa Cymru.

4.92 Mae Ffigwr 4.10 isod yn cyflwyno ymatebion yr arolwg i'r datganiad bod y meincnodau wedi ychwanegu i'r fframwaith CWW. Mae'r data'n awgrymu, wrth sôn am yr effaith bresennol, mai dim ond 4% oedd yn anghytuno gyda'r datganiad, tra bo bron i ddwy ran o dair (66%) yn cytuno. Doedd un chwarter (25%) ddim yn gwybod, a doedd mwyafrif y rheiny ddim yn rhan o waith darparu'r Peilot.

**Ffigwr 4.10: Mae Meincnodau Gatsby wedi ychwanegu gwerth i'r fframwaith CWW**




N=54

**Y Cwricwlwm i Gymru**

4.93 Ystyriaeth bellach y gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd ac ymatebwyr yr arolwg ei gwneud oedd penderfynu a oedd cyfatebiaeth neu aliniad gyda'r Cwricwlwm i Gymru. Yn fwy penodol, roeddent i ystyried i ba raddau y byddai darpariaeth y cwricwlwm a darpariaeth Gatsby yn cyfateb ac yn ychwanegu gwerth i'w gilydd.

4.94 Canfu'r mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd bod y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r cwricwlwm yn fwy heriol, ac roedden nhw'n awyddus i bwysleisio mai megis arloesi neu gychwyn eu darpariaeth o'r cwricwlwm newydd yr oedd ysgolion (ar y gorau). Ond, roedd y mwyafrif yn cytuno bod y meincnodau'n mynd i gyflenwi'r cwricwlwm newydd, yn arbennig os cânt eu hintegreiddio'n effeithiol o fewn ysgolion.

> 'Mae'n ymwneud â'i gael i weithio yn awr. Cyhyd â'i fod yn y cynllun datblygu ysgol, dylai weithio o hyd – ar yr amod bod dyletswydd ar bawb i roi cyngor gwerthfawr i ddisgyblion. Y prif beth yw bod modd ei ymwreiddio.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.95 Awgrymodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd hefyd ei fod yn amser da iawn i gyflwyno'r ddau newid ar adegau tebyg. Dywedodd un or rhai a gyfwelwyd:


> 'Yn sicr, mae'n amser da i hwn ddod i mewn yn awr, oherwydd wrth i ni symud i mewn i'r cwricwlwm newydd, gallwn edrych arno fel rhan o hwnnw a gallwn wthio gyrfaoedd drwy gyfadrannau. Gyda'r hen gwricwlwm byddai wedi bod yn anoddach eu gwthio drwy'r cyfadrannau.' (Cyfweliad ag Arweinydd Gyrfaoedd, 2020)

4.96 Cafodd hyn ei gefnogi gan y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr yr arolwg a awgrymodd bod sail resymegol y Meincnodau Gatsby yn eistedd yn dda ochr yn ochr â phedwar diben y cwricwlwm newydd.

> 'Mae'r cwricwlwm newydd yn pwysleisio'r ffaith fod angen meithrin dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, gyda phwyslais ar brofiadau. Mae'r meincnodau'n esbonio i bobl ifanc pam maen nhw'n astudio pynciau penodol yn yr ysgol a sut mae'r pynciau hyn yn berthnasol i rolau yn y byd gwaith.' (Ymateb i'r Arolwg, 2020)

4.97 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg hefyd a oedden nhw’n cytuno y byddai’r meincnodau’n ategu addysg gyrfaoedd yn yr ysgol yn dilyn cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru. Mae’r ymatebion yn awgrymu’n gryf eu bod yn credu bod y meincnodau’n ategu addysg gyrfaoedd ochr yn ochr â’r cwricwlwm newydd, gyda bron i dri chwarter (74%) yn awgrymu eu bod. Doedd bron i chwarter (23%) ddim yn gwybod (doedd y mwyafrif o’r rheiny ddim wedi darparu’r Peilot), tra bo 2% yn anghytuno (un ymateb).

**Ffigwr 4.11: Bydd y meincnodau’n cyflenwi addysg gyrfaoedd yn yr ysgol yn dilyn cyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru**




N=53

## 5. Casgliadau

5.1 Mae’r data a gyflwynwyd yn y bennod flaenorol yn awgrymu bod yr holl Arweinwyr Gyrfaoedd a’r mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg yn gyffredinol bositif am weithrediad, effaith a gwerth Meincnodau Gatsby. Ystyriwyd bod y meincnodau’n ddull o ddatblygu ac ychwanegu gwerth i ddarpariaeth addysg gyrfaoedd yn ysgolion Cymru, yn ogystal â sicrhau effaith positif ar ymwybyddiaeth dysgwyr o lwybrau gyrfaol ac, yn y pen draw, ar eu cyrchnodau.

5.2 Mae’r casgliadau wedi eu strwythuro mewn perthynas â’r cwestiynau ymchwil allweddol a bennwyd gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn ystod cam cwmpasu’r gwerthusiad.

**A yw ysgolion yn gweld gwerth yn y broses Meincnodi Gatsby?**

5.3 Mae Arweinwyr Gyrfaoedd, yn ogystal â staff ehangach, gan gynnwys Timau Uwch-Arweinwyr, yn uniaethu’n barod â rhesymeg a sail resymegol y meincnodau, ac mae hyn yn ffactor allweddol, ym marn y rhanddeiliaid, o ran galluogi i’r dull gael ei weithredu’n llwyddiannus. Roedd cytundeb ac aliniad eang gyda’r sail resymegol, ac roedd nifer o’r ymatebion yn edych yn barod ar y meincnodau a datblygiad cysylltiedig addysg gyrfaoedd drwy brism y cwricwlwm newydd, gyda’r cyntaf yn ategu darpariaeth yr olaf. Roedd rôl yr Arweinydd Gyrfaoedd wedi ei hintegreiddio’n dda yn y mwyafrif o ysgolion, a chynhyrchwyd atebolrwydd clir o ganlyniad i hynny, ochr yn ochr â’r arweiniad a ddarparwyd gan y rôl.

5.4 Roedd awgrymiadau, fodd bynnag, bod sicrhau ymrwymiad gan aelodau staff ehangach fel athrawon, yn ogystal â rhieni, yn broses oedd yn dal i fynd rhagddi. O ystyried y rôl y mae athrawon yn ei chwarae mewn darparu rhai o’r meincnodau, ac mewn ymwreiddio addysg gyrfaoedd i’r cwricwlwm, efallai y bydd angen cymorth ar yr Arweinwyr Gyrfaoedd i sicrhau ymrwymiad cymaint ehangach. Weithiau byddai’r rheolwyr canol neu benaethiaid adran/cyfadran yn cael eu henwi fel hwyluswyr a galluogwyr allweddol y broses hon. Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â sut y gellid sicrhau ymrwymiad rhieni, ond ni chynigiwyd unrhyw arferion da neu atebion posibl.

5.5 Un pryder pellach, oedd yn gysylltiedig â’r mater blaenorol o bosib, oedd y farn mewn lleiafswm o ysgolion, mai gan yr Arweinydd Gyrfaoedd yr oedd y cyfrifoldeb am yr holl addysg gyrfaoedd ac, o ganlyniad, roedd yn esgusodi aelodau ehangach o’r staff rhag darparu’r meincnodau a’r addysg gyrfaoedd. Er bod hyn efallai’n broblem sy’n perthyn i’r cam gweithredu yn unig, mae’n cyflwyno rhwystr i

ddarpariaeth effeithiol y meincnodau, sef mater a fydd yn siŵr o gael ei archwilio yn yr adroddiad terfynol.

**Pa mor effeithiol yw'r prosesau monitro o ran tracio cynnydd a'ch cefnogi i sefydlu a datblygu'r meincnodau?**

5.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon gyda'r prosesau monitro, yn arbennig yr Arweinwyr Gyrfaoedd. Yn ogystal, un ystyriaeth gyffredin oedd bod y broses fonitro ac archwilio'n ychwanegu gwerth i reolaeth ysgolion. Wrth fapio darpariaeth, gallai Arweinwyr Gyrfaoedd a Thimau Uwch-Arweinwyr ddeall a chanfod bylchau yn well yn y ddarpariaeth ac adnabod yn hyderus pa ddatblygiadau pellach oedd eu hangen.

5.7 Roedd Arweinwyr Gyrfaoedd wedi wynebu heriau wth ddangos tystiolaeth o effaith mewn rhai sefyllfaoedd, ond, yn arbennig felly ar y lefel unigol ac wrth ganfod cysylltiadau achosol rhwng y meincnodau, darpariaeth addysg gyrfaoedd, a newidiadau yn ymwybyddiaeth y dysgwr unigol o lwybrau gyrfaoedd, cyrhaeddiad neu gyrchnod.

5.8 Yn ogystal, o ran dangos tystiolaeth o gynnydd wrth weithio i ddarparu'r meincnodau, roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu bod rhywfaint o orgyffwrdd gyda phrosesau dangos tystiolaeth Marc Gyrfa Cymru. Er nad oedd yn argymhelliad priodol ar gyfer cefnogi'r Peilot, dylai unrhyw gyflwyniad neu ehangiad pellach i ddull Meincnodi Gatsby ystyried ac archwilio ffyrdd o gyfyngu ar y gorgyffwrdd neu'r dyblygu rhwng y dulliau dangos tystiolaeth,

5.9 Roedd y rhanddeiliaid a'r Arweinwyr Gyrfaoedd hefyd yn mynegi pryder am gysondeb tystiolaeth ar draw ysgolion, h.y. a ellir cymharu archwiliadau, a'r ffaith nad yw categori coch mewn un ysgol yn cynrychioli yr un peth efallai â chategori coch mewn ysgol arall.

**A yw ysgolion yn gweithredu'r Meincnodau'n effeithiol?**

5.10 Fel y disgwylwyd ar y cam interim, dywedwyd mai dim ond yn rhannol yr oedd y meincnodau wedi eu gweithredu. Felly, wrth ystyried yr holl effeithiau a heriau a wynebir, dylid eu hystyried o fewn y cyd-destun hwn, a chofio bod Arweinwyr Gyrfaoedd yn dal wrthi'n datblygu camau a chynlluniau gweithredu effeithiol. Fodd bynnag, daw dwy ystyriaeth allweddol i'r amlwg ar gyfer rheolwyr y rhaglen a'r personél llunio polisïau mewn perthynas â dichonoldeb y dull. Yn gyntaf, defnyddiwyd y gronfa sbarduno'n aml iawn i dalu am staff cyflenwi i ryddhau'r

Arweinydd Gyrfaoedd i ddatblygu a gweithredu'r meincnodau. Ystyriwyd amser yn adnodd allweddol yn aml iawn, ac ystyriwyd rhyddhau unigolyn i neilltuo amser i'w weithredu'n effeithiol yn elfen allweddol.

5.11 Yn ail, defnyddiwyd y gronfa hefyd i gefnogi darpariaeth, i drefnu digwyddiadau a thripiau ac i gefnogi gweithgareddau ymgysylltiad allanol. Fel cronfa sbarduno, sydd ar gael yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig, nid yw'r gwariant hwn yn gynaliadwy. Yn ogystal, mae'r ffaith ei fod yn ddrud yn effeithio ar faint y gellir ystyried gweithgareddau ac effeithiau blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth yn rhai cyffredinol i bawb. Mewn geiriau eraill, nid yw'r gwariant ychwanegol yn cynrychioli cyfres 'arferol' o weithgareddau i gefnogi'r meincnodau

5.12 Nododd ymatebwyr hefyd, yn arbennig wrth ddarparu gweithgareddau i garfanau mawr o ddysgwyr, er mwyn bodloni targedau allbwn sy'n gysylltiedig â'r archwiliad, bod rhywfaint o awgrymu'n digwydd bod safon y gweithgareddau, eu perthnasedd i bob unigolyn, ac i ba raddau y cawsent eu teilwra, oll yn llai pwysig na sicrhau'r targed. Yn ogystal, wrth gasglu data am allbwn neu weithgareddau, e.e. Ffigyrau presenoldeb mewn digwyddiadau ymgysylltu allanol, nid oedd y data monitro'n gallu casglu manylion digonol am effaith digwyddiadau fel hyn ar ddysgwyr.

5.13 Roedd y cynnydd mewn perthynas â'r tri meincnod yn arafach na'r cynnydd mewn perthynas â'r lleill. Ystyriwyd bod Meincnodau 2 (Dysgu o wybodaeth y farchnad gyrfaoedd a llafur) a 4 (Cysylltu dysgu'r cwricwlwm gyda gyrfaoedd) ar ei hôl hi oherwydd heriau dangos tystiolaeth a sicrhau bod 91% o ddysgwyr (y targed) yn derbyn darpariaeth ystyrlon. Hefyd, ystyriwyd bod symud addysg gyrfaoedd i'r cwricwlwm prif ffrwd yn cymryd mwy o amser i'w gyflawni. Yn y cyfamser, teimlwyd bod Meincnod 5 yn arbennig o heriol i ysgolion lle nad oedd cynllun profiad gwaith yn bodoli'n barod.

5.14 Dim ond lleiafswm o Arweinwyr Gyrfaoedd oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant a gynigir gan Gyrfa Cymru yn llawn. Roedd y mwyafrif yn cwestiynu a oedd yr hyfforddiant yn berthnasol neu werth ei wneud. Gallai'r awgrym hwn fod yn gyfiawnhad am beidio cwblhau'r hyfforddiant, ochr yn ochr â chred sydd yr un mor boblogaidd bod yr hyfforddiant yn rhy anodd. Mae'r awgrym hwn yn gwrthgyferbynu gyda barn y nifer isel iawn oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant, ac a gafodd fudd sylweddol o'r hyn a ddysgwyd, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn eu rôl fel Arweinwyr Gyrfaoedd. Un mater cysylltiedig allweddol o bosib yw nad oedd arwain addysg gyrfaoedd yn llwybr gyrfaol yr oedd llawer o athrawon yn ei ystyried, ond yn hytrach

dim ond cyfrifoldeb oedd yn cael ei basio rhwng athrawon bob blwyddyn neu ddwy. O ganlyniad, nid oedd cymhwyster yn y maes hwn yn apelio nac yn cynrychioli dull o ddatblygu gyrfa. Er nad oedd yn argymhelliad ar gyfer y rhaglen Beilot, os byddai'r meincnodau'n cael eu cyflwyno o gwbl, dylent ystyried ffyrdd o annog a hyrwyddo'r rôl o arwain addysg gyrfaoedd a, thrwy gysylltiad, yr hyfforddiant a'r cymhwyster sy'n cefnogi rôl o'r fath.

5.15 Yn olaf, dywedodd nifer o'r ymatebwyr mor werthfawr oedd cefnogaeth ac arweiniad y rheolwr rhaglen iddynt. Er eu bod yn siarad yn ffafriol am rôl y rheolwr rhaglen yn y Peilot, mae ymhlygiadau clir os bydd y cynllun Peilot yn cael ei gyflwyno neu ei ehangu, sef bod y gefnogaeth a ddarperir gan rôl y rheolwr rhaglen yn allweddol i sicrhau'r lefelau o weithrediad y mae'r ysgolion wedi eu cyflawni hyd yn hyn. Mae'n annhebygol y byddai angen lefelau tebyg o gymorth os byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno neu ei ehangu.

**Pa effaith mae'r meincnodau'n ei chael ar addysg gyrfaoedd, dysgwyr, ysgolion a rhanddeiliaid?**

5.16 Roedd yr ymatebwyr yn siarad yn gadarnhaol am yr effaith y mae'r meincnodau wedi'i chael, ac yn fwy cadarnhaol am yr effaith y byddent yn ei chael yn y dyfodol yn dilyn gweithrediad pellach a 'dyfnach'. Roedd Arweinwyr Gyrfaoedd o'r farn, ac roedd ymatebwyr yr arolwg yn eu hatsain, bod y meincnodau wedi helpu i ddarparu dysgu gyrfaoedd effeithiol a chyson, sy'n fwy ystyriol o angen y dysgwr na'r ddarpariaeth flaenorol. Yn ogystal, roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r meincnodau'n cefnogi dysgwyr drwy eu paratoi a'u cymell wrth iddyn nhw symud ymlaen ar hyd llwybr gyrfaoedd.

5.17 Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y gallu i ddangos tystiolaeth a dangos — ar lefel unigol — bod y meincnodau'n sicrhau bod dysgwyr yn manteisio i'r eithaf ar eu potensial, yn datblygu uchelgais ac yn annog dysgu am oes, ac yn datblygu'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Er y gallai cymariaethau'r carfanau ddangos yr effaith yn y meysydd hyn, yn ogystal â chyflawniad, mae'n debygol y byddai'n her i ddangos tystiolaeth o gysylltiadau achosol rhwng y meincnodau, y ddarpariaeth addysg gyrfaoedd, a newidiadau yn ymwybyddiaeth dysgwyr unigol o lwybrau gyrfaoedd, cyflawniad neu gyrchnod.

5.18 Yn fwy penodol, credir bod y meincnodau wedi annog gweithgareddau sy’n cychwyn cyfres o effeithiau cadwyn. Gellid cymharu’r gadwyn hon gyda model newid ymddygiadol sy’n cychwyn gyda chodi ymwybyddiaeth ac sy’n cychwyn cadwyn o ganlyniadau sy’n arwain, yn y pen draw, at yr effaith a ddymunir, sef yn yr achos hwn newid yng nghyrchnod y dysgwyr. Mae’r meincnodau’n annog ystod o weithgareddau ac yn cysylltu’r dysgwyr gydag amrywiaeth o lwybrau gyrfaol. Mae hon, effaith fwyaf amlwg ac uniongyrchol y meincnodau, yn hybu ymwybyddiaeth, ymgysylltiad a dymuniad am arweiniad gyrfaol pellach a mwy penodol/wedi’i deilwra, y mae’r meincnodau wedi eu llunio i’w darparu drwy arweiniad personol (Meincnod 8) ac o fewn y cwricwlwm (Meincnod 4). Ymgysylltiad a chymhelliant yw’r agweddau allweddol yr ystyrir eu bod yn cyfrannu i gyflawniad gwell yn y tymor hir. Yn y cyfamser, ystyrir mai cyrchnodau dysgwyr yw’r ddolen derfynol yn y gadwyn, a ddaw o ganlyniad i well cyrhaeddiad, gan alluogi cynnydd ar hyd llwybr gyrfaol sydd wedi ei deilwra fwy neu sy’n fwy perthnasol i’r dysgwr unigol.

5.19 Cysylltwyd effeithiau tymor hwy gyda’r meincnodau hefyd. Y mwyaf nodedig oedd yr awgrym bod y meincnodau’n galluogi i ddarpariaeth addysg gyrfaoedd herio stereoteipio’r rhywiau, oherwydd y pwyslais ar gysylltiad â’r gweithle a gyrfaoedd. Yn ogystal, credid bod ymgysylltiad allanol amlach a mwy cyson, a anogwyd ac a strwythurwyd gan y meincnodau, yn hyrwyddo ymgysylltiad mwy ystyrlon ac, o ganlyniad, mwy perthnasol.

5.20 Yn olaf, mewn perthynas ag ysgolion, roedd Arweinwyr Gyrfaoedd, drwy fonitro a mapio darpariaeth, yn ogystal â thrwy’r ddarpariaeth sydd wedi ei nodi yn y meincnodau, yn siarad am ennill hyder o ran gwybod sut i adnabod y ‘da i anelu amdano’. Arweiniodd hyn yr Arweinwyr Gyrfaoedd ac aelodau’r Tîm Uwch-Arweinwyr i nodi eu bod yn hyderus, hyd yn oed os oedd y ddarpariaeth addysg gyrfaoedd yn brin, bod y meincnodau’n nodi sut i wella a datblygu darpariaeth o’r fath.

**A yw'r Meincnodau Gatsby yn 'addas' neu a oes ganddynt y potensial i ychwanegu gwerth a chyflenwi darpariaeth gyrfaoedd yng nghyd-destun Cymru?**

5.21 Roedd Arweinwyr Gyrfaoedd a'r ystod o ymatebwyr i'r arolwg yn gryf o'r farn bod y meincnodau'n cefnogi ac yn ychwanegu gwerth i'r ddarpariaeth gyrfaoedd yng Nghymru. Awgrymodd yr ymatebwyr bod y meincnodau'n cefnogi'r fframwaith CWW, nid o ran gofyn am unrhyw weithgareddau penodol neu newydd ond o ran galluogi ysgolion i fapio, cynllunio a gweithredu darpariaeth, gan fod yn hyderus drwy'r amser eu bod yn deall beth yw'r 'da i anelu amdano'. Roedd y mwyafrif yn cytuno y bydd y meincnodau'n ategu'r cwricwlwm newydd, yn arbennig os cânt eu hintegreiddio'n effeithiol o fewn ysgolion. Ymhellach, dangosodd yr ymatebwyr bod y meincnodau, wrth alinio gyda dibenion craidd tebyg, yn nodi sut y gallai'r cwricwlwm a'r addysgu gefnogi datblygiad dysgwyr uchelgeisiol. Ond, roedd cydnabyddiaeth bod angen integreiddio a sicrhau ymrwymiad drwy'r ysgolion i gyd os oedd y meincnodau i gael eu hintegreiddio i ddarpariaeth y cwricwlwm newydd.

## 6. Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai rheolwyr y Peilot Meincnodi Gatsby ymdrechu i gefnogi'r Arweinwyr Gyrfaoedd wrth iddynt geisio sicrhau ymrwymiad ehangach gan athrawon a rhieni. Credir y gall penaethiaid adran/cyfadran hwyluso a galluogi hyn gan athrawon. Yn ogystal, dylid gwneud ymdrechion i rannu arferion da a rhannu gwybodaeth am 'beth sy'n gweithio' o ran sicrhau diddordeb y rhieni.

Argymhelliad 2: Dylai rheolwyr Peilot Meincnodi Gatsby ystyried hwyluso'r broses o rannu arferion da wrth roi tystiolaeth o effaith, a dylent roi cefnogaeth i Arweinwyr Gyrfaoedd er mwyn sicrhau y cesglir data cadarn a chyson i ddangos tystiolaeth o'r effaith, lle bo modd. Mae trafodaeth fer am ddulliau posibl o ddangos tystiolaeth wedi ei chynnwys yn Atodiad B

Argymhelliad 3: I gefnogi Argymhelliad 2 a'r ymdrechion i ganfod tystiolaeth o effaith gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r meincnodau, dylai'r rheolwyr annog pobl i gasglu data sy'n ymwneud â'r effaith ar ddysgwyr.

Argymhelliad 4: Heblaw bod y "gronfa sbarduno" yn dod ar gael bob blwyddyn, dylai'r rheolwyr annog pobl i beidio ei gwario ar y weithred o ddarparu fel nad ydynt yn amharu ar yr hyn y dylid ei ddisgwyl o flwyddyn 'nodweddiadol' o ddarpariaeth ac effaith sy'n gysylltiedig â'r meincnodau.

Argymhelliad 5: Dylai gwerthusiad terfynol y cynllun Peilot ystyried y strwythurau cefnogi sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno neu ehangu'r cynllun Peilot yn effeithiol.

Argymhelliad 6: Mae'r ymchwil hwn wedi canolbwyntio, drwy gyfrwng y dulliau a ddefnyddiwyd, ar farn yr Arweinwyr Gyrfaoedd a staff ehangach yr ysgol. Ni ddylid anwybyddu'r ffaith fod barnau dysgwyr a phobl ifanc wedi eu hepgor. Argymhellir y dylid canfasio profiadau a barnau'r dysgwyr hynny yn yr ysgolion Peilot hefyd

Argymhelliad 7: Dim ond data cyfyngedig iawn oedd ar gael ar gyfer y gwerthusiad hwn mewn perthynas ag Ysgolion Arbennig. Yr awgrym o'r data hwnnw oedd y gallai Ysgolion Arbennig gael trafferth cyflawni rhai targedau penodol neu na fyddai'r targedau o bosib yn hollol briodol ar gyfer y lleoliad a'r cyd-destun. Argymhellir gwneud ymchwil pellach mewn perthynas ag Ysgolion Arbennig a phriodoldeb y meincnodau mewn lleoliadau o'r fath.

Argymhelliad 8: Fel y nodir yn Atodiad B, mae’r pandemig COVID-19 a’r rheidrwydd cysylltiedig i gau ysgolion i’r mwyafrif o ddysgwyr, wedi amharu ar ail flwyddyn y Peilot. Yn y cyfamser, roedd ffocws y flwyddyn gyntaf yn naturiol ar sefydlu’r meincnodau a’r prosesau sy’n ymwneud â darpariaeth. O ganlyniad, ni fydd gwerthusiad terfynol y Peilot yn gallu tynnu ar flwyddyn gyflawn o weithrediad. Felly, argymhellir rhoi ystyriaeth i’r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod Peilot mewn rhai ysgolion, neu ymhob ysgol, er mwyn sicrhau bod data digonol a data mwy cadarn ar gael o’r flwyddyn gyfan o weithredu ar gyfer y gwerthusiad terfynol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y gallai blwyddyn 2020-2021 gael ei heffeithio gan COVID-19 hefyd. Os nad yw estyniad yn ymarferol nac yn debygol o sicrhau’r data a ddymunir, dylid rhoi ystyriaeth i’r hyn a ganfuwyd ac a ddysgwyd o’r cynllun Peilot a’i werthusiad yn Lloegr, ochr yn ochr â chanfyddiadau’r adroddiad hwn ac unrhyw adroddiad terfynol neu ymchwil ychwanegol sy’n archwilio Peilot Cymru.

**Atodiad A**

| Ym mha ffordd/ffyrdd ydych chi wedi bod yn ymwneud â Pheilot Meincnodi Gatsby? |
|---|
| Helpu i hyrwyddo digwyddiadau |
| Helpu i ddarparu sesiynau sy'n cynorthwyo'r ysgol i gyflawni'r Meincnodau Gatsby, ac hefyd ddarparu profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith |
| Pennaeth yn dyrannu staff i ddarparu'r peilot a chydlynu cyfranogaeth y llywodraethwyr |
| Pennu a helpu i gyfeirio myfyrwyr i mewn i'r project |
| Cydlynu'r rhaglen llwybrau gyrfaoedd |
| Mapio ar draws y cwricwlwm |
| Am fy mod yn cefnogi disgyblion, cefais y cyfle i eistedd i mewn ymhob sesiwn. |
| Hwyluso ei ddefnydd o fewn ein hadran chweched dosbarth |
| Ei dreialu fel Peilot yn ein hysgol |
| Cael fy mhenodi'n Arweinydd Gyrfaoedd i'r ysgol |
| Dechreuodd ein hysgol ymwneud â Gatsby ym mis Medi 2019. Rydym wedi cwblhau cynllun gweithredu a gweithgareddau i gefnogi ein disgyblion gyda'u dewisiadau gyrfaol. |
| Fi yw'r Arweinydd Gyrfaoedd ac rwyf wedi gwneud yr archwiliad a'r cynllun gweithredu. |
| Cyswllt y Tîm Uwch-Arweinwyr ar gyfer y project |
| Rwyf wed cymryd rhan fel arweinydd/llysgennad o fewn fy nghyfadran. |
| Darparu sesiynau i Flwyddyn 6 hyd Flwyddyn 13. Mae'r rhain yn sesiynau a ddarperir i'r dosbarth. |
| Darparu sesiwn i fyfyrwyr o 10 oed hyd 18 oed o amgylch gyrfaoedd a byd gwaith, gan gysylltu'r rhain i mewn i wyth meincnod Gatsby |
| Gweithgareddau gyrfaoedd ysgol uwch: sesiwn gyrfaoedd wythnosol yn ystod cofrestriad, llunio CV, ffug-gyfweliadau, ffair gyrfaoedd |

| |
|---|
| Rydym wedi creu adnoddau i Gyfnod Allweddol 3 eu defnyddio mewn perthynas â gyrfaoedd a'n pwnc ni. Rydym hefyd wedi defnyddio gwefan Gyrfa Cymru. |
| Darparu gwersi penodol i yrfaoedd |
| Fel Arweinydd Gyrfaoedd i'r ysgol. |
| Rwyf wedi edrych ar y cynllunio gan yr Arweinydd Gyrfaoedd. |
| Darparu gwersi gyrfaoedd i ddisgyblion Daearyddiaeth yn ystod 'Wythnos Gyrfaoedd' ysgol gyfan. |
| Trefnu/dyfeisio deunyddiau/sesiynau i redeg o fewn y maes cwricwlwm Saesneg |
| Rheolwr llinell i'n harweinydd Gatsby |
| Cyfranogi'n llawn yn y Peilot |
| Mae'r adran Ieithoedd Tramor Modern wedi darparu gwersi seiliedig ar yrfaoedd i bob dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 3. |
| Cydlynydd gyrfaol yn yr ysgol ers i ni gychwyn y project hwn; wedi ailfodelu rhaglen gyrfaoedd yr ysgol i Gyfnodau Allweddol 3–5 dros y flwyddyn ddiwethaf. |
| Cynllunio a darparu gweithgareddau sy'n ymwneud â gyrfaoedd o fewn gwersi, ac hefyd drefnu siaradwyr gwadd drwy Syniadau Mawr Cymru; roedd hyn yn ystod wythnos Gatsby yn yr ysgol |
| Rwyf wedi gorfod cwblhau holiaduron ynglŷn â sut rwy'n darparu addysg gyrfaoedd o fewn yr ysgol. |
| Wythnos gyrfaoedd |
| Rwyf wedi ei arwain yn yr ysgol yn rhan o fy rôl/cylch gwaith. Rwyf wedi cwblhau'r holl archwiliadau ac wedi gweithredu strategaethau i sicrhau y gellid cyflawni Meincnodau. |
| Archwiliad, trefnu digwyddiadau/cwrdd â chyflogwyr, trefnu ymweliadau â gweithleoedd, mynd i gyfarfodydd |
| Cydlynydd ysgol a chyswllt Tîm Uwch-Arweinwyr ar gyfer addysg gyrfaoedd |
| Ffair Gyrfaoedd yn y peilot ysgolion cynradd |
| Roeddwn i'n rhan o'r ymarfer cwmpasu yn y camau cychwynnol ac, ers hynny, rwyf wedi llunio a darparu rhaglen sy'n cefnogi ysgolion i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r meincnodau. |

| |
|---|
| Treialu ffeiriau gyrfaoedd yn yr ysgol |
| Arwain y project yn yr ysgol. |
| **Ym mha ffordd/ffyrdd mae/bydd Meincnodau Gatsby wedi/yn cael effaith ar ymwybyddiaeth disgyblion o lwybrau gyrfaoedd?** |
| Gwybodaeth am y farchnad lafur, gwerthfawrogi sgiliau meddal, a phrofiadau sy’n ymwneud â gwaith |
| Mwy mewn rhai pynciau nag eraill |
| Gwybodaeth am opsiynau sydd ar gael a gwybodaeth am wahanol lwybrau gyrfaoedd nad oedd disgyblion wedi meddwl amdanynt o’r blaen efallai |
| Mwy o ddewisiadau ac addysg o amgylch gwahanol lwybrau gyrfaoedd |
| Bydd pob plentyn yn derbyn yr un addysg gyrfaoedd, gan wella dyheadau a chyrhaeddiad. |
| Dull gyda mwy o ffocws i ddarparu cyfleoedd ar draws yr ysgol |
| Mae’r addysgu a’r trafod gweithredol am amrywiol yrfaoedd wedi bod yn ddiddorol ac yn fuddiol i ddisgyblion, ynghyd â’r cyfleoedd i ymchwilio gyrfaoedd, cyrsiau a rolau swyddi. |
| Bydd yn caniatáu i fyfyrwyr gael gwybodaeth lawn o’r farchnad lafur gyfredol. Bydd yn gostwng stereoteipio swyddi. Bydd yn caniatáu i fyfyrwyr weld y cysylltiad hanfodol rhwng ysgol a byd gwaith. |
| Yn amlygu diwydiant, llwybrau gyrfaol ac ati, gan roi llawer mwy o wybodaeth i bobl ifanc ynglŷn â pha yrfaoedd potensial y gallent eu cael |
| Mae gan ddisgyblion ffocws a llwybr perthnasol ac maen nhw’n gwybod yn union sut i gyrraedd yno. |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o’r ffordd y gall gwahanol bynciau helpu gyda gwahanol opsiynau gyrfaol |
| Mae’n amlygu gwahanol lwybrau gyrfaol posibl nad oeddent wedi eu hystyried o’r blaen o bosib |
| Yn ei wneud yn fwy amlwg ymhob maes astudio, oherwydd mae wedi ymwreiddio yn y cwricwlwm |
| Syniadau cynharach o wahanol yrfaoedd; mwy o opsiynau pan fyddent yn gadael y coleg; disgyblion â gwell rheolaeth ar eu dyfodol |

| |
|---|
| Bydd rhoi mwy o ffocws drwy gydol Cyfnod Allweddol 3 yn caniatáu mwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad mewn gyrfaoedd |
| Mwy o ymwybyddiaeth o ystod o opsiynau; gwell dealltwriaeth o’r hyn mae llwybrau gyrfaol penodol yn eu cynnwys |
| Diwrnodau gyrfaoedd, ffeiriau |
| Rhoddir gwybod i ddisgyblion am lwybrau penodol i bwnc a’r ystod lawn o opsiynau sy’n agored iddynt. |
| Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae disgyblion wedi rhyngweithio llawer mwy gydag arbenigwyr a chyflogwyr o nifer o wahanol lwybrau gyrfaol. Maen nhw wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai, drwy weithgareddau fel wythnos gyrfaoedd, wedi cynnal gweithdai STEM. Mae rhieni wedi cael eu gwahodd i sgyrsiau am wybodaeth y farchnad lafur ac mae disgyblion wedi cael ffug-gyfweliadau. Mae athrawon wedi bod yn fwy hyderus yn siarad am y ffordd y mae eu pynciau’n cysylltu â llwybrau gyrfaol y dyfodol, ac mae disgyblion wedi bod yn fwy parod i drafod eu dyheadau gydag athrawon. |
| O ganlyniad i’r cynnydd mewn digwyddiadau gyrfaol, bydd disgyblion yn fwy ymwybodol o’u llwybrau yn y dyfodol. |
| Gwahodd siaradwr/siaradwyr i’r ysgol i siarad am eu gyrfaoedd |
| Cyfleoedd ehangach i yrfaoedd gael eu hymwreiddio ar draws y cwricwlwm; mwy o ffocws ar y cysylltiad rhwng yr ysgol a’r daith ymlaen drwy fyd addysg/gwaith |
| Drwy sicrhau bod ganddynt wybodaeth am yr holl lwybrau sy’n agored iddynt a chyngor da i’w helpu nhw i wneud y penderfyniad gorau |
| Gwell ymwybyddiaeth a strwythur mwy eglur |
| Cael eu cyflwyno i opsiynau y tu allan i’r llwybr traddodiadol o ‘Safon Uwch i brifysgol’. Maen nhw wedi derbyn llawer mwy o wybodaeth am brentisiaethau o wahanol lefelau a sut gall y rhain fod yn opsiynau ymarferol. |
| Ymwybyddiaeth uwch o’r cyfleoedd sydd ar gael |

| Ym mha ffordd/ffyrdd mae/bydd Meincnodau Gatsby wedi/yn cael effaith ar gyrhaeddiad disgyblion? |
| --- |
| Gwella gwaith tîm, ymchwil a sgiliau astudio annibynnol; hefyd wella sgiliau cyfathrebu |
| Bydd yn ysbrydoli disgyblion, gan wella cyrhaeddiad. |
| Maen nhw wedi cymell rhai disgyblion i wneud mwy o ymdrech. |
| Bydd yn canolbwyntio'r myfyrwyr i gyflawni'r rolau swydd y maent eu hangen. Bydd ganddynt yr wybodaeth i weithio tuag at y gyrfaoedd hyn. Er enghraifft, i addysgu yng Nghymru, mae angen i fyfyrwyr gael o leiaf B mewn Saesneg a Mathemateg. Os bydd myfyriwr eisiau dysgu/bod yn athro, bydd yr wybodaeth hon yn gadael iddyn nhw weithio tuag at y nodau hyn. |
| Mae gan ddisgyblion fwy o ffocws i gael eu graddau pan mae ganddyn nhw gyrchnod yn eu meddwl. |
| Bydd rhai disgyblion yn gweithio'n galetach mewn pwnc os ydyn nhw'n meddwl y bydd yn eu helpu yn eu gyrfa yn y dyfodol. |
| Ddim yn gwybod |
| Gwneud sgiliau'n eglur, eu gwneud nhw'n fwy uchelgeisiol |
| Ffocws ar Sgiliau Hanfodol Cymru Mynediad 3/eu hachrediad i ddeall pwysigrwydd ennill y dyfarniadau a fydd yn agor drysau ar gyfer y dyfodol |
| Mae gyrfaoedd wedi ymwreiddio yn ein cwricwlwm 14–19. |
| O fewn fy maes astudio, efallai y gallai ffocws cynyddol ar lwybrau sefydlu'r angen i gyflawni'n uwch yn y pwnc er mwyn galluogi mynediad i yrfaoedd. Gallai hyn wella cyrhaeddiad. |
| Fel y dywedwyd, bydd y disgyblion, gobeithio, yn fwy uchelgeisiol, yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt, a byddent yn dyheu am gyflawni. |
| Bydd disgyblion yn gwybod pa gymwysterau sydd eu hangen i fynd ar ôl eu gyrfa neu ddiddordeb, a byddent yn ymdrechu i ennill y graddau hyn. |
| Gobeithio y bydd disgyblion yn teimlo'n frwdfrydig am fod ganddynt darged a llwybr clir. |
| Mae ymchwil wedi dangos bod mwy o gyfarfodydd rhwng disgyblion a chyflogwyr yn gwella cyrhaeddiad. |
| Mwy o ffocws ar lwybr gyrfaoedd; felly, mwy o gymhelliant i gyflawni |

**Atodiad B: Trafodaeth am ddulliau o ddangos tystiolaeth o effaith**

6.1 Roedd un pryder cyffredin a chyson a godwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â'r heriau sy'n gysylltiedig â dangos tystiolaeth o effaith. Mae'r atodiad hwn yn ceisio cyflwyno rhagor o argymhellion mewn perthynas â chasglu data a thystiolaeth a fydd yn cefnogi ymdrechion i ddangos effaith y cynllun Peilot.

6.2 Am fod Gatsby yn gynllun Peilot heb unrhyw warant y bydd y gweithgareddau'n cael eu parhau ar ôl cyfnod o ddwy flynedd, mae ymarferoldeb yn ystyriaeth allweddol. Nid yw'n ymarferol disgwyl i staff wneud gwaith casglu data manwl, biwrocrataidd neu sy'n cymryd llawer o amser. Dylai'r rheolwyr ystyried trafod agweddau ymarferol casglu data gyda'r rheolwr rhaglen a'r Arweinwyr Gyrfaoedd cyn ei weithredu.

6.3 Mae tri phrif faes o effaith a ddisgwylir o ganlyniad i'r meincnodau: (a) cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd a llwybrau gyrfaoedd ymysg dysgwyr, (b) gwella cyrhaeddiad dysgwyr, ac (c) effeithio ar gyrchnodau dysgwyr.

6.4 Yn dilyn dadansoddi'r data ar gyfer y gwerthusiad interim hwn, credir mai'r ffordd orau o ddeall y tri maes o effaith yw meddwl amdanynt fel camau ar hyd cadwyn achosol o effeithiau. Gellir cymharu'r gadwyn hon, fel y mae wedi ei thrafod yng nghasgliadau'r adroddiad, gyda model newid ymddygiadol. Bydd cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd a llwybrau gyrfaol, os bydd yn llwyddiannus, yn cychwyn cadwyn o effaith bellach, gan arwain at sefyllfa lle mae dysgwyr yn cymryd camau gweithredu a fydd, yn y pen draw, yn achosi newidiadau yng nghyrchnodau dysgwyr.

6.5 Gallai fod yn heriol ceisio dangos tystiolaeth o'r effaith mewn rhai achosion neu gysylltu'r effaith gyda'r meincnodau a'r gweithgareddau neu ddigwyddiadau perthnasol. Bydd hyn yn arbennig o heriol o fewn oes y Peilot, o ystyried natur dymor hir yr effaith y tybir bod y meincnodau'n ei chael. Fodd bynnag, efallai ei bod hi'n bosibl profi damcaniaeth y rhaglen — hyd yn oed o fewn Peilot — drwy archwilio data a thystiolaeth sy'n ymwneud â chysylltiau allweddol ar hyd y daith tuag at newid cyrchnodau. Ymhellach, gellir archwilio'r cysylltiau allweddol hyn drwy edrych ar ddata sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ogystal â charfanau cyfan o ddysgwyr.

6.6 Cam cyntaf y daith yw cynyddu ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaol, sydd (drwy ddiffiniad) yn wahanol i, neu'n newydd i, yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod yn barod. Os bydd dysgwyr yn ymwybodol o lwybrau gyrfaol amgen, byddent wedyn yn chwilio am fwy o wybodaeth, yn teilwra eu dewisiadau academaidd a chymwysterau ac, mewn egwyddor, yn ymgysylltu'n fwy rhagweithiol er mwyn cyflawni'r cymwysterau allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer y llwybr gyrfaol a ddymunant. Pan fyddent yn ymgysylltu'n well, disgwylir i ddysgwyr wella eu cyrhaeddiad — o leiaf o fewn pynciau neu gymwysterau allweddol. Gyda gwell cofnodion cyflawniad a chymwysterau, gallai'r dysgwyr ddilyn llwybrau gyrfaol o'u dewis, gan arwain yn y pen draw at eu dewis gyrchnod gyrfaol.

6.7 Cynyddu ymwybyddiaeth yw effaith fwyaf mesuradwy ac uniongyrchol y meincnodau. Cyflawnir hyn drwy ystod o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r meincnodau (yn fwyaf nodedig, feincnodau 2, 4, 5, 6 ac 8). Mae'n debyg y dangosir tystiolaeth o gysylltiad y dysgwyr gyda byd gwaith drwy'r archwiliad, gan ateb targedau penodol i sicrhau fod pob dysgwr yn cael cysylltiad â phrofiadau a chyfleoedd i ddysgu am lwybrau gyrfaoedd. Gellir dangos tystiolaeth bod y cysylltiad hwnnw wedi cael effaith yn wrthrychol ac yn oddrychol ar lefelau unigol ac mewn carfanau.

6.8 Ar lefel yr unigolyn, mae arolygon byr gyda sampl o ddysgwyr yn dilyn digwyddiadau neu weithgareddau sy'n arddangos a chodi ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaoedd, neu'n ddelfrydol wedi eu cynnal ar ddechrau a diwedd tymor academaidd neu flwyddyn pan gynhelir gweithgareddau neu ddigwyddiadau o'r fath, yn cynnig ffordd o gasglu gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r dysgwyr eu hunain yn teimlo am eu hymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaol. Gall yr arolygon bennu camau allweddol ar hyd y daith o newid ymddygiad, o godi ymwybyddiaeth i gynyddu lefelau o ddealltwriaeth a'r hyder i gymryd camau ac, yn y pen draw, gamau perthnasol.

6.9 Os bydd arweiniad personol (Meincnod 8) yn ddigonol, gellir cysylltu ymatebion yr arolwg gyda nodiadau neu sylwadau gan athrawon neu gynghorwyr gyrfaoedd mewn perthynas â thaith dysgwr unigol a'i ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfaol.

6.10 Un canlyniad posibl i'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth yw diddordeb gan y dysgwyr mewn 'optio i mewn' i ddigwyddiadau neu geisiadau am arweiniad personol sy'n ymwneud â llwybrau gyrfaoedd penodol. Bydd nodiadau neu sylwadau gan athrawon mewn perthynas â mynegiant o ddiddordeb o'r fath, er bod her o ran eu

coladu heb fecanweithiau adrodd syml a ddefnyddir yn eang (megis nodiadau ar gofnodion personol), yn dystiolaeth bellach o gamau allweddol ar hyd y daith mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth.

6.11 Ar lefel carfan, gellir coladu a dadansoddi data arolwg ar gyfer y grwpiau blwyddyn cyfan er mwyn canfod tueddiadau mewn codi ymwybyddiaeth neu mewn ceisiadau am ragor o arweiniad gyrfaol neu arweiniad gyrfaol penodol.

6.12 Yr ail ddolen allweddol yn y gadwyn yw gwella cyrhaeddiad, sy'n digwydd drwy gynyddu ymgysylltiad. Mae'r cysylltiad rhwng ymgysylltiad a chyrhaeddiad wedi ei sefydlu'n dda ym maes ymchwil addysgol. O ganlyniad, mae adroddiadau gan athrawon am gynnydd mewn ymgysylltiad yn cynnig tystiolaeth o gynnydd tuag at wella cyrhaeddiad. Mae cysylltu'r gwelliant mewn ymgysylltiad gyda'r meincnodau a'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth yn bosib ar y lefel unigol os oes nodiadau neu adroddiadau digonol ar gael. Mae cysylltu adroddiadau athrawon am ddatblygiad y dysgwr gydag ymwybyddiaeth yrfaol yn debygol o fod yn gam tymor hir tuag at ddangos tystiolaeth o effaith y meincnodau.

6.13 Fodd bynnag, gellir dangos tystiolaeth o gyrhaeddiad ar gamau allweddol, neu drwy ddata Incerts[7] neu ddulliau tebyg o fonitro cyrhaeddiad a ddefnyddir gan staff addysgu. Gall y data hwn gynnig mewnwelediad ar lefel yr unigolyn, ond mae'n fwy tebygol ac yn haws ei wneud yn ddienw ar lefel y garfan. Eto, mae'n annhebygol y gellir cysylltu cyrhaeddiad uwch yn uniongyrchol ac yn eglur â'r meincnodau a chodi ymwybyddiaeth. Ond, o'i gyfuno â nodiadau neu adroddiadau gan athrawon ar y lefel unigol a/neu astudiaethau achos o ddysgwyr, gellir dangos bod camau allweddol yn digwydd (neu ddim yn digwydd) ar hyd y daith.

6.14 Yn olaf, mae'n debyg mai'r ffordd orau o ddangos tystiolaeth o newid cyrchnodau yw drwy gymharu data ymadawyr ysgol. Y ffordd fwyaf tebygol a hawsaf o wneud hyn yw drwy gymharu data o'r arolwg cyrchnodau.[8]

6.15 Fodd bynnag, o ystyried bod y meincnodau wedi cymryd dipyn o amser i gael eu sefydlu (ac mewn rhai achosion maent yn dal i gael eu sefydlu) o fewn ysgolion, wedi'i gyfuno â'r effaith y mae COVID-19 wedi ei gael ar ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r meincnodau, mae'n annhebygol bod unrhyw garfan wedi profi blwyddyn lawn o weithredu. Efallai y bydd rheolwyr eisiau ystyried

[7] Mae Incerts yn rhaglen a ddefnyddir yn eang i fewnbynnu a monitro data dysgwyr unigol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: http://www.assessmentfoundation.org/about-incerts.html. Mae dulliau eraill ar gael.
[8] http://destinations.careerswales.com/

yr angen am estyniad i'r peilot er mwyn galluogi i werthusiad terfynol Peilot Meincnodi Gatsby archwilio effaith blwyddyn lawn o weithredu.

6.16 Gelir hefyd ystyried astudiaethau achos fel cyfleoedd i ddogfennu 'stori' taith unigolyn. Er bod taith unigolyn yn gallu bod yn weddol unigryw ac anodd ei chyffredinoli, gall adeiladu a chefnogi darlun o'r effaith y mae ymyrraeth yn ei gael. Gallai astudiaethau achos, er enghraifft, gael eu casglu drwy gyfres o fideos byr (dogfennu ymyriadau neu weithgareddau penodol) a ffilmiwyd ar ffonau clyfar yn ystod neu yn dilyn gweithgareddau neu ar ddiwedd blwyddyn academaidd, yn archwilio nifer o gamau ar hyd y daith o godi ymwybyddiaeth i weithredu newid a gwella cyrhaeddiad.

6.17 Am fod y llwyth gwaith mewn perthynas â gweithredu'r meincnodau'n debygol o leihau yn ystod ail flwyddyn y Peilot, ynghyd â'r ffaith bod gwybodaeth am y rhaglen yn hysbys yn barod, mae'r Arweinydd Gyrfaoedd yn ymddangos yn rôl allweddol a allai gymryd y cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth o effaith.

6.18 Un agwedd allweddol o ddangos tystiolaeth o effaith fydd cysondeb. Dylai rheolwyr ystyried datblygu cyfres gyffredin o offer ar gyfer cefnogi Arweinwyr Gyrfaoedd (tebygol) yn y dasg o gasglu tystiolaeth e.e. un arolwg cyffredin i ddysgwyr. Mae rhaglenni cyffredin yn gallu casglu data cymaradwy ar draws ysgolion, gan alluogi canlyniad gyda mwy o arlliw ac sy'n haws ei gyffredinoli mewn perthynas ag effaith y meincnodau.

6.19 Efallai hefyd y bydd rheolwyr eisiau ystyried datblygu dulliau syml 'sydd wedi ennill eu plwyf' neu 'system seren' sy'n dangos y camau allweddol a gymerir gan ddysgwyr unigol ar hyd y daith ddamcaniaethol. Mae ymyrraethau a ddefnyddir i gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn NEET ynghyd â Gyrfa Cymru yn defnyddio dulliau tebyg ar gyfer eu rhaglenni cyfredol a gallent ddarparu cymariaethau defnyddiol. Gellid strwythuro'r dulliau hyn o amgylch model Kirkpatrick,[9] neu fodel tebyg, sy'n ceisio canfod a dangos tystiolaeth o gamau allweddol sy'n gysylltiedig â chaffael gwybodaeth a newid ymddygiadol.

6.20 Yn olaf, mae'r archwiliad ei hun yn arwain at gasglu data, yn arbennig ddata meintiol, y gellir ei gyflwyno ynddo'i hun fel tystiolaeth o effaith. Gallai cynnydd yn y nifer o gyfnodau profiad gwaith a wneir, er enghraifft, fod yn ddangosydd o effaith, yn ogystal â chael eu cofnodi yn erbyn y meincnod perthnasol.

---

[9] https://www.kirkpatrickpartners.com/

# Atodiad C: Archwiliadau am y meincnodau

| | School 1 | School 2 | School 3 | School 4 | School 5 | School 6 | School 7 | School 8 | School 9 | School 10 | School 11 | School 12 | School 13 | School 14 | Progress made | On or above | No progress |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benchmark 1(11) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Structured careers programme** | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 36% | 18% | 45% | 18% | 18% | 18% | 64% | 9% | 0% | 0% | 9% | 18% | 9% | 18% | | | |
| Audit 2 | 55% | 45% | 73% | 45% | 18% | 18% | 100% | 18% | 9% | 54% | 54% | 54% | 55% | 36% | 71% | 14% | 14% |
| Target | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 54% | 100% | 50% | 30% | 50% | 60% | 60% | 60% | 60% | | | |
| Benchmark 2 (9) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Impartial guidance for years 8 - 13 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 44% | 22% | 44% | 77% | 11% | 33% | 44% | 67% | 0% | 33% | 33% | 11% | 22% | 22% | | | |
| Audit 2 | 44% | 55% | 44% | 77% | 11% | 44% | 100% | 44% | 0% | 44% | 33% | 44% | 33% | 66% | 36% | 14% | 50% |
| Target | 66% | 66% | 77% | 100% | 100% | 66% | 100% | 80% | 20% | 70% | 66% | 100% | 45% | 66% | | | |
| Benchmark 3 (10) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Careers programme actively raises aspiration | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 30% | 40% | 60% | 60% | 10% | 20% | 90% | 90% | 20% | 20% | 30% | 0% | 20% | 50% | | | |
| Audit 2 | 30% | 70% | 60% | 60% | 10% | 50% | 100% | 90% | 70% | 30% | 90% | 30% | 50% | 90% | 36% | 36% | 29% |
| Target | 45% | 63% | 100% | 100% | 27% | 72% | 100% | Maintain | 50% | 90% | 90% | 90% | 100% | 100% | | | |
| Benchmark 4 (6) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| All teachers link curriculum to careers | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 17% | 100% | 67% | 67% | 50% | 0% | 100% | 67% | 0% | 50% | 17% | 0% | 33% | 33% | | | |
| Audit 2 | 17% | 100% | 83% | 67% | **17%** | 0% | 100% | 67% | 0% | 50% | 50% | 67% | 83% | 50% | 36% | 29% | 36% |
| Target | 75% | Maintain | 100% | 100% | 100% | 50% | Maintain | Maintain | 20% | 100% | 50% | 100% | 100% | 80% | | | |
| Benchmark 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| All pupils have oppportunities to learn from multiple employers | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 20% | 20% | 100% | 40% | 50% | 0% | 100% | 100% | 0% | 60% | 0% | 20% | 0% | 0% | | | |
| Audit 2 | 20% | 20% | 100% | 40% | **20%** | 0% | 100% | 100% | 50% | 100% | 0% | 100% | 60% | 60% | 7% | 43% | 50% |
| Target | 100% | 100% | Maintain | 100% | 100% | 50% | Maintain | Maintain | 50% | 100% | 50% | 100% | 100% | 50% | | | |
| Benchmark 6 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Experiences of the w orkplace | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 33% | 67% | 33% | 0% | 33% | 0% | 100% | 100% | 0% | 100% | 67% | 33% | 0% | 66% | | | |
| Audit 2 | 66% | 67% | 33% | 0% | **0%** | 0% | 100% | 100% | 0% | 100% | 67% | 67% | 67% | 66% | 7% | 36% | 57% |
| Target | 66% | 100% | 100% | TBC | 100% | TBC | Maintain | Maintain | 50% | Maintain | 100% | 100% | 67% | 100% | | | |
| Benchmark 7 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| All pupils understand full range of learning opportunities | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 100% | 67% | 0% | 33% | 50% | 33% | 100% | 100% | 0% | 67% | 67% | 66% | 67% | 0% | | | |
| Audit 2 | 100% | 67% | 0% | 33% | 50% | 66% | 100% | 100% | 66% | 100% | 67% | 100% | 67% | 33% | 14% | 43% | 43% |
| Target | Maintain | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | Maintain | Maintain | 50% | 100% | 100% | 100% | 100% | 50% | | | |
| Benchmark 8 (5) | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| One to one impartial career interview s | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Audit 1 | 100% | 0% | 0% | 100% | 50% | 60% | 40% | 20% | 20% | 60% | 60% | 100% | 0% | 100% | | | |
| Audit 2 | 100% | 20% | 20% | 100% | 50% | 60% | 100% | 20% | 75% | 80% | 60% | 100% | 0% | 100% | 21% | 43% | 36% |
| Target | Maintain | 50% | 50% | Maintain | 100% | 100% | 100% | 70% | 50% | 100% | 100% | Maintain | Improveme | Maintain | | | |